

ECO'R WYDDFA

RHIF 10

RHAGFYR 1976

Pris 8g



EIRA CYNNAR

MYNYDDOEDD ERYRI
(ar ol cawod o eira)

Yn hyn mae'r cewri heno — gwyllt eu gwedd

A'u gwallt gwyn yn chwifio,
Hensaint sy'n haenen yno
O frig i frig hyd y fro.

TONY ELLIOTT

ADRODDIAD PRIFATHRO

DRWY ganiatâd caredig Mr. W. Elfyn Thomas, M.A., Prifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug a'r Rheolwyr mae'n bleser gan *Eco'r Wyddfa* gyhoeddi Adroddiad y Prifathro ar y Flwyddyn Ysgol 1975/6.

Adlewyrcha'r adroddiad y gwaith a'r ymroddiad uchel iawn ar ran disgyblion ac athrawon. Yn sicr, bydd yr adroddiad cynhwysfawr yma gan Mr. Thomas o ddiddordeb ac o fudd mawr i blant, rhieni a nifer fawr o bobl yr ardal sydd yn ymddiddori yng ngweithgareddau'r ysgol.

ARHOLIADAU

Er mor bwysig yw fod plant yn ymddiddori mewn pob math o weithgareddau y mae llwyddiant ysgol yn cael ei fesur yn ôl canlyniadau arholiad i raddau helaeth ac wrth gwrs hyn sydd o bwysigrwydd pennaf i yrfa'r plentyn. Deliaf ag arholiadau safon 'O' a TAU yn gyntaf. Allan o 112 o blant y 5ed Flwyddyn (ac yr oedd nifer o'r rhain wedi gadael erbyn y Pasg neu'r Sulgwyn) yr oedd tua 90 yn eistedd arholiad 'O' neu TAU mewn nifer o bynciau. Felly yr oedd 80% yn cynnig am Dystysgrif — nid mewn un neu

ddau o bynciau ond mewn nifer ohonynt. Gellir dosbarthu rhain ymhellach a dweud fod 30% yn eistedd arholiad safon 'O' a 60% arholiad TAU. Y mae'r cyfartaledd yma yn foddhaol iawn.

Ymysg y rhai a wnaeth yn arbennig o dda oedd:

Safon O (graddau A a B yn unig)

Helen Hughes 4 'A': 3 'B'
Bronwen Rees Hughes: 4 A: 5 B
Olaf Cai Larsen: 4 A: 3 B
Anwen Jones: 3 A: 4 B
Richard Griffith: 2 A: 6 B
John Armor Roberts: 2A: 5B
Nia Bryn Jones: 2 A: 4 B

Safon TAU (graddau 1 a 2 yn unig)

Pat Barlow: 5 gradd 1: 3 gradd 2
Ann Caroline Williams: 5 G1: 3G2

Yr oedd y ddwy yma yn gyfeillion agos a chawsant yr un nifer o raddau 1 a 2 er nad yn yr un pynciau.

Parhad ar dudalen y Plant

DIARDDDEL HOGIA LLEOL

DRAENOG YN ATGOFFA'R WERIN!

DIARDDDELWYD pedwar swyddog o Gymdeithas y Cymric, Prifysgol Bangor, yn ystod y mis a aeth heibio oherwydd natur safiad y Gymdeithas yn erbyn polisi iaith awdurdodau'r coleg. Daw dau o'r swyddogion hyn o ardal Eco'r Wyddfa, sef Rheon Thomas o Lanrug a Glyn Thomas o Ddinorwig.

Gwrthododd Cyngor y Coleg bolisi iaith y Cymric a phenderfynodd y Gymdeithas weithredu'n uniongyrchol drwy dynnu poster i hysbysebion di-Gymraeg, meddiannu swyddfeydd gweinyddol y coleg a pheintio slogannau y tu mewn a thu allan i adeiladau'r coleg.

Ychydig dros ddeng mlynedd yn ôl gwnaeth Cyngor y Brifysgol, Bangor, apêl i Gymru gyfan am gyfraniadau ariannol i wynebu costau aruthrol adeiladau newydd. Dyletswydd Draenog yw dyfynnu o'r apêl, a gadael i chwi dynnu eich casgliadau ynglŷn â'r hogiau a "yrrwyd adra".

"Gall Coleg Bangor felly ymfalchio yn ei draddodiad gwyb mewn astudiaethau Cymraeg a Chymreig. Y mae'r traddodiad hwnnw mewn dwylo teilwng.

Galw taer y werin bobl am addysg uwchradd a barodd adeiladu Coleg Bangor a cholegau eraill Prifysgol Cymru yn niwedd y ganrif ddiwethaf. "Rhoes ei geiniog brin at godi'r coleg" meddai'r bardd am 'Hen Lanc Ty'n y Mynydd', a gellid dweud yr un peth am werin Gwynedd

yn gyffredinol yn y cyfnod hwnnw. Nid anghofiodd y Coleg y graig y naddwyd ef ohoni, a bu o'r cychwyn cyntaf yn ymwybodol iawn o'r berthynas fywiol rhyngddo a'r gymdeithas y sefydlwyd ef i'w gwasanaethu. Y Coleg, yn wir, yw'r unig sefydliad cenedlaethol mawr yng ngogledd Cymru a daethpwyd yn naturiol i'w ystyried felly nid yn unig yn feithrinfa dysg ac ysgolheictod ond yn ganolfan diwylliant hefyd yn yr ystyr ehangaf i'r gair. Testun balchder i'r Coleg yw'r rhan a gymerodd gwerin Gwynedd yn y gwaith o'i sefydlu bymtheng mlynedd a thrigain yn ôl. Yr adeg honno mewn blwyddyn brin, cyfrannodd wyth mil o bobl dros £30,000 rhyngddynt. Casglodd chwarelwyr Penrhyn a Dinorwig £1,250 ar gyfer ysgoloriaethau. Cyn y rhyfel byd cyntaf, casglwyd dros £100,000 at adeiladu'r Coleg ar y Bryn".

Gall Draenog ddyfynnu llawer mwy, ond gormod o bwdin! Ôl-nodyn: Cyngor Prifysgol Bangor, — mae'r "werin" wedi deffro, bois. Fedrwrch chi ddim taflu baw i'w llygaid hi heddiw!



RAS BWYSICAF CYMRU ?

AR Y 16eg o Orffennaf y flwyddyn nesaf fe gynhelir "Ras Pen yr Wyddfa" am yr ail flwyddyn yn olynol. Yn ôl y trefnydd, Mr. Ken Jones, Nant Peris hon fydd ras bwysicaf Gogledd Cymru os nad Cymru gyfan.

Hysbysebwyd y ras yma i holl glybiau athletau Prydain a chofrestrwyd hi gan Gymdeithas Rasmus Mynyddoedd Prydain Fawr (Fell Runners Association) Dosbarth A. Cefnogwyd y ras gan Gyngor Chwaraeon ac hefyd yr AAA.

Y RHEDWYR GORAU

Bydd clybiau Athletau mwyaf Prydain yn cystadlu a bydd pwyntiau i'w gael i'r deg cyntaf. Disgwylir i redwyr gwir brofiadol gymryd rhan. Awgrymwyd gan y trefnyddion na ddylid rhai dibrofiadol gymeryd rhan oherwydd y cyflymder y rhedir y ras ac o safbwynt meddygol gwell iddynt fodloni ar edrych ac edmygu yn unig. Bydd yn rhaid cwtogi y nifer i 200 y tro yma, ond bydd hyn yn cynnwys dosbarth lleol a dosbarth iau.

AMSER CYCHWYN

Mae'n bur debyg mai 3.00 o'r gloch fydd yr amser cychwyn y flwyddyn nesaf — rhag cael gwrthdaro rhwng gweithgareddau Carnifal Llanberis. Wedi'r cyfan — rhan o weithgareddau'r carnifal yw'r ras a diwrnod Carnifal Llanberis fydd y 16eg o Orffennaf.



Chewch chi ddim cystadlu ar gefn motor beic, Mwy o'r hanes yma ar y tudalen canol.

DAW RHIFYN ARALL ALLAN CYN Y NADOLIG

ECO'R WYDDFA

RHIF 10 RHAGFYR 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-
y-Wawr, Glanffynnon
Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

RHIFYN ARALL CYN Y NADOLIG

Bydd y rhifyn nesaf allan nos iau, Rhagfyr 23ain. Rhifyn Nadolig go iawn fydd hwnnw. Chwi bobl busnes y fro, sylwch yn y rhifyn yma fod pentwr o hysbysebion. Beth amdanoch chi erbyn y rhifyn nesaf? Ydach chi am ddymuno Nadolig Llawen i'ch cwsmeriaid? Os felly, cysylltwch â'r Swyddog Hysbysebion, Bryn Awelon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, neu'r Golygydd (Caernarfon 3719) mor fuan ag sydd bosibl. Wnawn ni ddim gadael neb allan!

NANT PERIS

PENCAMPWR

Ar ddechrau'r mis enillodd Elfyn Williams, Nant Ffynnon cystadleuaeth drafftiau Adran Rhanbarth Gorllewin Gwynedd. 'Roedd pymtheg o Glybiau leu-entid, Aelwydydd yr Urdd a Chlybiau Ffermwyr leuainc yn cael eu cynrychioli yn y gystadleuaeth. Bydd Elfyn yn cystadlu am bencampwriaeth Gwynedd ddechrau'r mis yma. Pob lwc iddo.

DIOLCHIAU

Dymuna Mr. W.H. Davies, Glyn Peris ddiolch i bawb am y dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddiweddar.

Hefyd Mrs. C.A. Jones, Pennant am yr anrhegion a'r llu dymuniadau da rhy niferus i'w hateb yn bersonol. Derbyniad pawb ddiolch calon y ddau drwy gyfrwng yr Eco.

CROESO ADREF

Yr ydym yn falch iawn o gael estyn croeso adref o'r ysbyty i Mr. Harry W. Jones, 2 Nant Ffynnon. Da deall ei fod yn gwella yn foddhaol. Croeso mawr i ti Harry a chymer ofal i ti gael llwyr wellhad.

BYD Y FFILMAU

Mae'n debyg i ni gael yn y Nant ar y 3ydd o Dachwedd yr hyn a elwir ym myd y ffilmiau yn 'Premiere'. Dangoswyd yma am y tro cyntaf, yn y gogledd, ffilm y gwnaed y rhan fwyaf ohoni yn y Nant, sef "Gwaed ar y Sêr". Dangoswyd hefyd addasiad o Awdl fuddugol Gerallt Lloyd Owen 'Yr Afon' gan Aelwyd yr Urdd Llandwrog a chyngerdd olaf y grŵp pop Edward H. Cafwyd noson ddifur a thŷ llawn. Dangosir y ffilmiau o dan nawdd Urdd Gobaith Cymru ac maent ar daith ar hyn o bryd drwy'r gogledd.

LLYTHYRAU

Ysgol Brynrefail
Llanrug

Annwyl Olygydd,

Y mae rhai pobl wedi bod yn dweud na wyddant beth yw enwau y rhai sydd ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol. Dyma felly restr ohonynt a gyhoeddir ar gais y Rheolwyr eu hunain.

CYNGOR GWYNEDD

Cyng. Gwyn O. Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen. (Cadeirydd)
Cyng. W. Prytherch, Efail Rhos, Llanfaglan, Caernarfon
Mrs. M.E. Hughes, Craig y Don, Cwm-y-Glo; Canon Alun Jones, B.A., Rheithordy, Llanberis (Is-gadeirydd) Cyng. Edwin Ll. Evans, Arvonja, Gallt y Foel, Deiniolen. Cyng. Trefor Williams, 64 Stryd Fawr, Llanberis.

CYNGOR BWRDEISDREF ARFON

Cyng. Francis Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis; Cyng. Mrs. Patricia G. Larsen, Llygad yr Haul; Penisarwaun; Cyng. Samuel Jones, Cefn Farm, Llanddeiniolen.

ATHRAWON

Mr. John Eurwyn Morris

RHIENI

Mr. K. Jones, Cae Coch, Brynrefail; Mrs. G.W. Lovatt, Brwynog, Llanrug; Mr. Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Bethel; Mrs. Joan Griffiths, Pant Tirion, Llanrug.

Diolch yn fawr
W.E. Thomas
Prifathro

SUL GWAHANOL

Yr oedd y Sul 21ain o Dachwedd yn arbennig iawn yn Rehoboth. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu dosbarth o chwech o fechgyn yn cyfarfod ein gweinidog y Parch. John Owen, B.A., B.D. i'w paratoi at gael eu derbyn yn gyflawn aelodau. Cymerwyd gwasanaeth y bore gan y bechgyn ac anerchiad byr gan y Gweinidog. Derbyniwyd hwy yn gyflawn aelodau yn oedfa'r hwyr yng ngwasanaeth y Cymun. Yr hyn oedd yn arbennig oedd mai dyma'r tro cyntaf yn hanes canrif y capel presennol i chwech o fechgyn gael eu derbyn gyda'i gilydd. Hefyd dywedodd y Gweinidog mai dyma'r tro cyntaf iddo ef yn ystod ei ddeuddeng mlynedd yn y Weinidogaeth gael Dosbarth a phob un ohonynt wedi presenoli eu hunain ym mhob cyfarfod. Cafwyd anerchiad byr cynhwysfawr gan Mr. J.W. Elis i'r bechgyn ar yr achlysur. Deallwn y bydd y bechgyn yn dod o gwmpas i werthu tocynnau bwyd dan nawdd Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr i'r Parch. John Owen am ei lafur gyda'r bechgyn a diolch hefyd i'r bechgyn am eu hymateb ac am eu gwasanaeth yn ystod y Sul. Dymunwn iddynt bob bendith yn y dyfodol.

Neuadd John Morris-Jones
Bangor

Annwyl Ardalwyr,

Cymdeithas y Cymric

Fel y gwyddoch mae Cymdeithas y Cymric, Cymdeithas Gymraeg Coleg y Brifysgol, Bangor, ar hyn o bryd yn cynnal ymgyrch yn erbyn awdurdodau'r coleg er hyrwyddo polisi iaith a fyddai'n rhoi tegwch i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd y coleg, yn weinyddol ac yn addysgol. Hyd yn hyn mae'n haelodau wedi defnyddio dulliau cyfansoddiadol a rhywfaint o ddulliau anghyfansoddiadol megis tynnu poster i phaentio sloganau ond bu'r cwbl yn hollol ddisgybledig a di-drais. Canlyniad yr ymgyrch oedd gyrru pedwar o swyddogion y Gymdeithas, dri ohonynt ar eu blwyddyn derfynol o'r coleg am weddill y sesiwn. Gwaharddwyd hwy rhag dyfod ar gyfyl y coleg. Pe baent yn addo peidio ag ymyrryd mewn unrhyw fodd dan unrhyw amgylchiadau ar weinyddiaeth a gweithrediad y coleg, ac yn datgan hynny yn ysgrifenedig wrth y coleg, byddai'r coleg yn fodlon eu derbyn yn ol fel myfyrwyr o fewn blwyddyn.

Teimlwn fod cosb mor drom â hon ar y rhai a ddigwyddai fod yn swyddogion y Cymric, a hynny o ganlyniad i ymgyrch ddisgybledig a threfnus, yn hollol anghyfiawn.

"Rhoes ei geiniog brin i godi'r coleg...", mae'n debyg bod llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r dyfyniad yna. Bellach mae'n anodd gweld yn y sefydliad a elwir U.C.N.W. adlewyrchiad o'r chwarelwr neu'r gwerinwr ddarfu roi ei arian i'w godi. Gwarth ydyw gweld fel y sethrir ein diwylliant gan y coleg a fu'n

DEWCH I SIOP THOMAS PRITCHARD IRONMONGER

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS Ffôn 206

am nwyddau a chelfi
a bob math i'r cartref

.....

Carpedi, leino, Paent
Valspar a Crown
Papur papuro, Tsieni,
Nwyddau Trydan a llawer
MWY.....

OLL AM BRISIAU
RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis

gymaint rhan o freuddwyd y chwarelwr am ddyddiau gwell. Rhaid i bethau newid.

Ymbillwn arnoch fel caredigion y Gymraeg i ysgrifenu at Gofrestrydd y coleg, Eric Hughes, i gwyno am y fath driniaeth ac i ofyn i weithredau'r polisi synhwyrol a argymhellwyd gan y Cymric. Gofynnwn i chwi i gyflorio'r llythyr atom ni er mwyn i ni gael ei gyflwyno i'r Cofrestrydd.

Hoffem bwysleisio fod yr ymgyrch i gael y pedwar swyddog a ddiarddelwyd yn ôl i'r coleg, bellach yn rhan annatod o'r ymgyrch i gael polisi iaith teg yn y coleg.

Yr eiddoch yn gywir,
Ar ran y Gymric,
Russell Isaac
Iwan Rh. Edgar.

CYFRANIADAU

Llawer o ddiolch i Mr. Jos Hughes o'r Rhyl, Clwyd (gynt o Bodifor, Rhyddallt Terrace, Llanrug) am ei gyfraniad o £1.

Yr ydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, boed fach neu fawr.

Cymanfa Corwen

HEATHER JONES
HERGEST
MEIC STEVENS

PAFILIWN CORWEN
Rhagfyr 11eg, am 8.30
Mynediad : £1.00

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

E& E.M.GREEN

SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres
Dewis rhagorol
Croeso cartrefol

CWM-Y-GLO

DERBYN MEDAL

Ein llongyfarchiadau i'r Rhingyll Rowland Morris, ar dderbyn ohono Fedal Gwasanaeth Hir yr Heddlu (22 mlynedd). Cyflwynwyd y Fedal iddo gan Gadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru - Y Cynol J. Ellis Evans. Mae'r Rhingyll Morris, sy'n briod, gyda dwy ferch, yn gwasanaethu yn yr Wyddgrug ar hyn o bryd. Mab ydyw i Mrs. Morris, Hafan a'r diweddar Mr. J.E. Morris, Merddyn, Ceunant. Pob llwyddiant iddo eto i'r dyfodol.

GWELLHAD BUAN

Bu pedair o ferched y Cwm dan driniaeth lawfyddygol mewn ysbytai lleol, yn ddiweddar - Mrs. Rose Fowler, Bodlondeb, Mrs. Megan Pritchard, Bryn Difyr, Miss Blodwen Williams, 'Eliqir View, a Mrs. Iris Rowlands, Glan 'Rafon. Da gennym gael croesawu'r tair gyntaf adre'n ôl, gan ddisgwyl na fydd Iris yn yr ysbyty'n hir chwaith - daliwch i wella.

Deallwn fod amryw o'r pentref heb fod rhyw dda eu hiechyd yn ddiweddar, a dymunwn adferiad buan i chwi i gyd.

ANFON COFION

A'r Nadolig yn agosau, 'rwy'n siwr y caredm fel pentref anfon ein cofion cynnes a diffuant at ddau a ddewisodd gartrefu yma wedi iddynt ymddeol, i'w blaiddyn yn ôl - Miss. Roseveare, Tan Rhiw a Mr. Dingle, Tŷ Draw. Oherwydd afiechyd maent bellach yn analluog i gael aros gartref, ond nid anghofiw'n eu diddordeb, eu caredigrwydd a'u cefnogaeth i holl achosion da'r Cwm. Chwith gennym golli eu cwmni, a dymunwn iddynt y Gwyliau gorau posibl.

CYDYMDEIMLWN

Â Mr. a Mrs. Hughes, 1 Dolafon a'r teulu i gyd, ar golli ohonynt eu chwaer annwyl Mrs. M. Parry. Gwraig dawel, ond llawn hiwmor, a ddaeth yma o Gaeathro, ar achlysur ei phriodas â'r diweddar Mr. Hugh Parry.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Galwyd Cyfarfod Cyhoeddus gan Bwyllgor y Cae Chwarae ar Dachwedd 22ain, a chafwyd cynulliad arbennig o dda, yn cynnwys Cynhorwyr Gwynedd ac Arfon. Cadeirwyd gan Lywydd y Pwyllgor - Mr. Evan G. Owen. 'Roedd Pwyllgor y Cae yn awyddus i gael barn a phleidlais y pentrefwyr ar rai cyfnewidiadau a phosibiliadau a ddaeth yn wybyddus yn ddiweddar. Er rhoi cefndir y sefyllfa i'r cyhoedd, darllenodd yr ysgrifennydd gofnodion perthnasol a chafwyd crynodeb o'r rhain i'r Saeson oedd yn bresennol gan Mr. Owen. Wedi cyfle i drafod, daethpwyd i'r gwahanol benderfyniadau.

Gan fod Cyngor Arfon yn barod i ymgymeryd â datblygu'r Cae Chwarae, fel y caniatâ'r sefyllfa economaidd, penderfynwyd tros-

glwyddo Gweithredoedd y Cae o ofal Cyngor Cymuned Llanrug i Gyngor Arfon, gyda'r atodiad ei fod i'w ddatblygu fel Cae Chwarae yn unig.

Cytunwyd â chais Cyngor Arfon, a dymuniad y Cyngor Cymuned, i Gwm-y-Glo gadw Pwyllgor Cae Chwarae mewn bodolaeth, fel dolen gyswllt rhwng Arfon a'r pentref, mewn materion cynllunio a datblygu, gyda'r ymwybyddiaeth y buasai aelodau'r Pwyllgor hwn yn dal i gymeryd diddordeb yn nyfodol y cae, a chadw golwg arno'n ogystal.

Yn absenoldeb anorod y Trysorydd - Mr. Hywel Williams darllenwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol. Mynegwyd boddhad, ac yng ngoleuni hyn, pasiwyd trwy bleidlais y mwyafrif i drosglwyddo'r arian mewn llaw i fath o Gronfa Neuadd, er amcanu at gael Canolfan Gymdeithasol i'r pentref, er budd pawb o bob oedran a phob mudiad.

Pasiwyd hefyd fod Pwyllgor y Cae Chwarae i wneud rhyw fath o gyfraniad OS BYDDAI ANGEN, pe caiff y darn tir yng ngwaelod ystad Dolafon, ei wella, er cael lle diogel i blant iau Dolafon gael man chwarae wrth ymyl eu cartref.

Wedi ymdrin â materion perthnasol i'r Cae Chwarae, a'r Neuadd, manteisiwyd ar y cyfle i holi'r Cynhorwyr ynglŷn â llawer o faterion a godwyd yng Nghyfarfod Cyhoeddus Mehefin pan oedd yr aelod seneddol - Mr. Dafydd Wigley'n bresennol.

I ddiweddu, diolchodd y Cadeirydd i'r Cynhorwyr a thrigolion Cwm-y-Glo ar ran Pwyllgor y Cae Chwarae am y gefnogaeth ardderchog a gafwyd yn ystod y saith mlynedd diwethaf.

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, Tachwedd 17 y gŵr gwadd oedd Mr. Glyn Williams (Llwyncoed) a chafwyd noson ddifyr iawn yn gwylio sleidiau dynwyd ganddo pan ar ei wyliau. Trwy gyfrwng yr rhain crwydrasom mewn dwy awr fer i Rufain Napoli, Pompeii a Malta. Dringasom Vesuvius, yna aethom i Sbaen a Thunisia. Wedyn cawsom ein hunain yn Efrog Newydd, Rhaeadr y Niagara a Chanada.

Yn absenoldeb y lywyddes cymerwyd y gadair gan yr is-lywyddes Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle. Aeth yr amser mor sydyn fel y bu rhaid gohirio yr adroddiad o'r Gynhadledd yn Aberystwyth, lle bu Mrs. Eluned Hughes a Mrs. Margaret Williams yn cynrychioli'r gangen.

Y gwestwagedd oedd Mrs. Hannah Jones, Mrs. Maria Pritchard a Mrs. Nellie Pritchard - y dair o Lanberis. Hwy hefyd roddodd y raffl a enillwyd gan Mrs. E.M. Evans. Diolchwyd iddynt ac i Mr. Glyn Williams gan Miss Olwen P. Jones Gwylfa ac eilwyd gan Miss Mair Rowlands, Bodafon.

Bydd y gangen yn cyfarfod ar Ragfyr 8ed y tro nesaf, pryd y ceir swper Nadolig wedi ei ddarparu gan rai o'r chwiorydd.

MEWN YSBYTY

Deallwn fod Miss Millard, Gwelfor wedi ei symud i un o Ysbytai Gogledd Cymru ac anfonwn ein cofion ati. Yr ydym yn falch hefyd fod Mrs. Fowler, Bodlondeb wedi cael dod adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor a'i bod yn gwella yn foddhaol wedi'r driniaeth.

UNDEB Y MAMAU

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol aelodau Undeb y Mamau yn ddiweddar o dan lywyddiaeth y Rheithor ac ef hefyd a arweiniai'r gwasanaeth agoriadol. Dewiswyd y swyddogion canlynol:

Ysgrifennydd ac ysgrifennydd cynorthwyol: Mrs. Pierce, Glanrafon a Mrs. Orrit, Morannedd, Trysorydd ac is-drysorydd: Mrs. Owen Isfryn a Mrs. Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Llywydd: Mrs. Watkins, Dolwen Prif Gynhullyd Mrs. Williams, Y Rheithordy, i ymweld â'r cleifion yn Llanrug, Miss. A.C. Jones, Glanllyn; ac yng Nghwm-y-Glo, Mrs. M.E. Hughes, Craig y Don a Mrs. Roberts, Bod Gwilym.

GWYNEDD A CHWI

BYDD Arddangosfa o dan y pennawd 'Gwynedd a Chwi' a fydd yn dangos pa wasanaethau a baratoir gan Gyngor Sir Gwynedd ar gyfer y cyhoedd, yn agor i'r cyhoedd yn Oriel Pendeitsh, Oriel ddangos y Cyngor Sir ger y Castell Caernarfon o fore Mawrth, Tachwedd 30ain hyd b'nawn Gwener Rhagfyr 10fed. Bydd yr Arddangosfa'n agored o 11 o'r gloch hyd 4 bob dydd, ond ni bydd yn agor ar y Sadymau.

BETH SY'N ARBENNIG YNGLŷN Â'R LLUN?

Rhai o blant ysgol Llanrug. Nid yw'r golygydd yn sicr o'r flywyddyn ond roedd 9 pâr o efeilliaid yn yr ysgol pan dynwyd y llun! Ni wyddys ond eu henwau cyntaf.

Gwyneth a Eluned; Dilys a Gwyneth; Gracie a Nellie; Eric a Idris; Katie a Jennie; John a Idris Wyn; Arthur a Glyn. Nid oes wybodaeth am y ddau bar arall. Oes rhywun yn gwybod?

MEI

YN DILYN penodiad Dafydd Owen yn drefnydd yr Urdd yn Sir Caernarfon, penderfynodd Dafydd Meirion, ei gyd-berchennog yng Ngwasg y Tir, ganolbwyntio ar gyhoeddi a chysodi.

Sefydlwyd dau gwmni - Cyhoeddiadau Mei, a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi llyfrau o bob math, yn amrywio o lyfrau a anelir at bobl ifanc i lyfrau bro, ac hefyd bosteri a chylchgronau a phenodwyd Gwynfor ab Ifor yn rhan amser i fod yn gyfrifol am y teipysgrifau. Bydd hefyd yn cynnig gwasanaeth cysodi a chynllunio o dan yr enw MEI (Cysodi a Chynllunio) a bydd yn ymgymeryd â'r gwaith hyn i argraffwyr a chyhoeddwyr, ac yn arbennig i gyhoeddwyr papurau bro.

Bydd busnes argraffu Gwasg y Tir yn parhau o dan yr enw Gwasg Deulyn. Y perchennog newydd fydd Glyn Thomas o Benygroes a fu gyda Gwasg Gwynedd yn Nant Peris a chyn hynny yn berchennog Argraffty'r Graig yng Nghaerdydd.

CWM-Y-GLO

MAE sedd wag yn bodoli yn ward Cwm-y-Glo o gyngor cymuned Llanrug. Dylai unrhyw un â diddordeb mewn bod yn gynghorydd gysylltu â Clarc y Cyngor, 60 Glanffynnon, Llanrug.

AR GYFER Y NADOLIG.....



Teganau
Teganau
Teganau

YN SIOP

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

BRYN-REFAIL

UNDEB Y MAMAU

Cafwyd cyfarfyddiad o'r undeb nos iau, Tachwedd 11eg a threuliodd y noson yn trafod a pharatoi ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig. Trefnwyd trip siopio i Gaer a chynhelir Ffair Nadolig yn Ffestri'r Capel nos iau Rhagfyr 14eg. Hefyd, derbyniwyd aelodau newydd i'r clwb.

LLONGYFARCH

Llawenhawn yn llwyddiant Anita Jones, Cae Coch ym myd coginio unwaith eto. Bu'n llwyddiannus y tro hwn mewn arholiad dan nawdd Bwrdd Nwy Cymru. Bydd yn cynrychioli Gwynedd mewn arholiad terfynol a gynhelir yng Nghaerdydd ar y nawfed o Ragfyr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Nos iau, Tachwedd 4ydd, dan lywyddiaeth Mr. D.G. Ellis, cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol yng nghwmni yr Athro Gwilym H. Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor. Testun ei ddarlith oedd "Gwlad Palesteina" a thrwy gymorth nifer helaeth o sleidiau dangosodd amryw o olygfeydd o'r wlad a thrafod eu cysylltiad Beiblaidd ac yn arbennig felly darganfyddiad Sgroliau'r Môr Marw a'u gwerth hanesyddol. Diolchwyd yn gynnes iddo ar ran y gymdeithas gan Miss A.M. Williams, yr unig un yn ein plith a gafodd y fraint o ymweld â Phalesteina ychydig flynyddoedd yn ôl. Y gwesteion am y noson oedd Mrs. Blodwen Owen a Mrs. Gwyneth Jones.

CYDYMDEIMLO

Chwithdod mawr i'r pentref fu ymadawiad disymwth Mrs. M.J. Williams, Isallt o'n plith ddydd Mawrth, Hydref 26ain. Yr oedd yn wraig hynod gymeradwy gan bawb yn yr ardal. Bu'n ffyddlon eithriadol i'r Achos ym Mrynrefail drwy ei phresenoldeb i holl gyfarfodydd yr eglwys a bydd bwlch amlwg ar ei hôl yn yr Ysgol Sul. Bydd ei lle yn wag hefyd fel aelod brwdfrydig o Glwb yr Efail. Cydymdeimlwn â'i hunig fab a'i briod Mr. a Mrs. Gwilym W. Williams, 3 Tai Orwig, Ceris a Lorna a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Ymwelodd Mrs. Harding Roberts, YCO Bangor â'r gangen yn y cyfarfod blyneddol a gynhaliwyd yn ystod y mis. Rhoddwyd adroddiad o waith y flwyddyn ynghyd ag adroddiad y Trysorydd. Ail-etholwyd y swyddogion am dymor arall — Llywydd: Mrs. Jennie Hughes, Ysgrifennydd: Mrs. Knox, Trysorydd: Mrs. Olwen Jones.

Y GOBEITHLU

Cafwyd cyfarfod agoriadol y Gobeithlu nos Fawrth, Hydref 19 pryd y daeth tyrfa dda o blant a'u rhieni ynghyd. Yn ystod y cyfarfod cafwyd ymarfer ar donau o'r Detholiad dan ofal Mrs. L.P. Williams. Gwahoddwyd y Parch. S.O. Hughes, Bethel i roi sgwrs i'r plant. Ef hefyd a ddangosodd ffilm "Galw'r Disgyblion yng nghyfarfyddiad y Gobeithlu ar Dachwedd 9ed, a chymerwyd y defosiwn gan Iestyn Jones. Nos Fawrth, Tachwedd 23ain, 'roedd y defosiwn yng ngofal Christine Jones a chafwyd noson ddifyr ac amrywiol dan ofal y plant yn cyfrannu eitemau o adrodd a chanu. Trefnwyd y rhaglen gan Mrs. Shirley Roberts. Yn cyfeilio yn y cyfarfodydd yr oedd Miss Mair Wyn Evans. Y swyddogion am y tymor yw — Llywydd: Mr. R.W. Evans; Ysgrifennydd: Mrs. Shirley Roberts; Trysorydd: Mr. Gerallt Jones.

PRIODAS AUR

Ar y pedwerydd o Ragfyr bydd Mr. a Mrs. Griffith Pritchard, Glyn Afon yn dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Fel y gwyddom mae Mr. Pritchard yn hannu o'r pentref a Mrs. Pritchard hithau o Benygroes. Treuliodd y ddau ran helaeth o'u hoes yn Rhydau Duon cyn symud ohonynt i fyw i lawr i'r pentref wedi ymdeol. Mae iddynt bedwar o blant, wyth o wyrion a phump o or-wyrion. Dymunwn iddynt bob hapusrwydd ac iechyd i fwynhau llawer blwyddyn arall.

RECORD FIR NEWYDD HOGIA'R WYDDFA

"DEWCH GYMRY GLÂN I WRANDO AR EIN CÂN"

13 o ganeuon gwerin gan
HOGIA'R WYDDFA

gan gynnwys caneuon poblogaidd fel
Rownd yr Horn; Lisa Lân; Ar gyfer heddiw'r bore;
Hwiangerdd Mair; Fflat Huw Puw; Llongau Caernarfon;
Si Hei Iwli 'Mabi ac eraill

SAIN 1072D



Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



BU'R HYDREF yn hen eleni, a chyn i'r coed gael amser i ddiosg eu dail, daeth arwyddion y Gaeaf yn gynnar i'r fro.

Rydan ni yn lwcus iawn yn Dosbarth I Ysgol Dolbadarn — mae'r Wyddfa yn edrych drwy'r ffenest arnon ni bob dydd. 'Roedd yr hen blant 'cw wrth eu bodd pan welson nhw y mynydd yn gwisgo ei sgert mini ar yr ail o Dachwedd, a ma' nhw'n ffyddiog y gwelant Yr Wyddfa fawr mewn coban laes cyn bo hir. Tydi plant yn fwrlwm o farddoniaeth d'udwch?

EIRA CYNNAR

Fe welais Yr Wyddfa
Yn Nhachwedd cyn hyn,
Yn cuddio ei chorun
Dan gapan bach gwyn;
Fe'i gwelais yn swatio ar noson oer
A siôl tros ei hysgwydd dan olau'r lloer

Ond heddiw pwy goeliai
Ar Dachwedd yr ail,
Cyn i'r dderwen gael cyfle
I ddiosg ei dail;
Y gwelem ni'r Wyddfa yn edrych mor bert
Ac yn ymfalchio'n ei mini sgert.

Ai argoel sydd yma
Y gwelwn cyn hir,
Blancedi o eira'n
Gorchuddio'r holl dir;
A bydd carped gwyn dros y bryn a'r maes
A'r Wyddfa'n cysgu mewn coban laes.

Croeso i Fethel, a chroeso arbennig i'r Llannerch i chi Gwilym Davies. Buom yn cydweithio yn Ysgol Pen-y-Bryn, Bethesda am gyfnod. Yr un mynydd sydd wedi cynhyrfu'r awen ynoch chithau.

YR WYDDFA

O diroedd Bethel fe weli — urddas
A harddwch Eryri,
Uthredd y graig a'i llethri,
A chofia ein Hwyddfa ni.

Gwych yw ei frig uwch y fro, — mewn niwloedd

Y myn wely heno:
Ond her yw ei uchder o;
Her i angau ei ddringo.

Yn Awst bydd amwisg drosto
A hagrach i'w harddwch o.

G.E. Davies
Y Ddôl, Bethel

Ydy, mae'r Nadolig wrth y drws unwaith eto a diolch i David Whiteside Thomas am iddo anfon carol i'r Llannerch.

CAROL NADOLIG

Murmurai yr awel ym mryniau Caer-salem

Yr anthem o fendith o Fethlem.
Ar bresb o garpiâu a geni gobeithion
Y Seren dywynnai yn dirion.

Byrdwn:

Ac yma y ganwyd Meseia i'r byd
I fyw ac i farw drosom i gyd;
A ninnau'n ei gofio'r Nadolig hwn
Wrth ladd ar ein gilydd â gair ac â gwr.

Wylafain a galar o ddi yr India,
Ac ymladd o amgylci, Rhodesia;
A ninnau mor gyfiawn yn anfon ein gynnu
I saethu plant bach sydd mewn eisiau.

Byrdwn:

Ac yma y ganwyd Meseia etc...

Gloddesta ar gigoedd a wnawn ni yng Nghymru

A drachtio o'n gwirod cyn canu
Caneuon o ddiolch, carolau i'r duwiau
Am fraster y saim ar ein gweflau.

Byrdwn:

Ai dyma pam ganwyd Meseia i'r byd
I fyw ac i farw drosom i gyd?
A ninnau'n ei gofio'r Nadolig hwn
Yn 'sgerbwd o 'sglyfaeth ar ein platiau crwn.

Dafydd Whiteside Thomas

Diolch am eich ymateb i'm cais am gerddi. Carwn apelio'n garedig arnoch i geisio ymatal rhag llunio cerddi rhy hir. Gwn yn dda fod rhaid i ambell gerdd fod yn hir, ond fy mhroblem i yn y Llannerch yw diffyg gofod.

MAE tocyn mawr o linellau—y feirniadaeth yn y rhifyn nesaf. Rhoddir £3 o wobr Nadolig i'r orau. Tydi hi ddim yn rhy hwyr i gystadlu.

CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL CLWYD

ADRAN DRAMÂU

Anfonwch 'rwan am ein rhestr o ddramâu — Dros 80 o ddramâu un act a 35 o ddramâu hir.

Newydd o'r wasg : dwy ddrama fer gan Mrs. Nansi Pritchard:

A'R BORE A FU IECHYD DA

Am swm isel, medrwrch fenthyg y dramâu mewn stoc neu eu prynu. Croeso cynnes i chwi ymweld â'r Swyddfa er mwyn dewis eich drama.

GWASANAETH DYBLYGU
Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig gwasanaeth teipio a dyblygu i fudiadau gwirfoddol, Capeli ac Eglwysi. Ceir manylion am y telerau rhesymol oddi wrth:—

Charles A. Hogg,
Prif Swyddog,
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd,
Ffordd yr Orsaf,
Rhuthun,
Clwyd.

Ffôn: Rhuthun 2441.



Cofio ym Methel

BEDYDDIO

Er ymddangosiad y rhifyn diwethaf o'r *Eco* bedyddiwyd 2 o bland y Cysegr. Dydd Sul Hydref 31ain bedyddiwyd Julia Ann plentyn Mr. a Mrs. E. Barry Jones 6 Stad Eryri. Bore Sul Tachwedd 28ain bedyddiwyd David, mab Jeff a Barbara Hughes, 14 Stad Eryri. Gweinyddwyd ar y ddau achlysur gan y gweinidog y Parch. W.R. Williams.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU

Yn yr oedfa nos Sul Tachwedd 28 yng nghapel Cysegr derbyniwyd 12 o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau. Derbyniwyd Wena L. Jones a Nest L. Jones, Tŷ'r Ysgol; Ann Evans, Blaen Parc, Kevin Williams, Carneddi, David Evans, Blaen Parc, Iorwerth Wyn Evans Parcia Rhos, Elfyn Jones, 29 Bro Rhos, Valerie A. Pritchard, Llys Ieuan, Eirian Wyn Jones, 12 Bro Rhos, Alyce M. Jones, Bod Hyfryd, Helen W. Jones, Glan Gors, Iolo W. Morgan, 8 Cremlyn.

GENI

Llongyfarchiadau i Idwal a Lynwen Morris, Perthi, Y Rhos ar enedigaeth Llinos Angharad yn Ysbyty Dewi Sant ddydd Gwener Tachwedd 12ed.

DYMUNIADAU GORAU

i Mrs. M.J. Hughes, Hafod Elen ar ei phenblwydd yn 87 oed ddydd Sadwrn Rhagfyr 4ydd.

MERCHED Y WAWR

Ers pythefnos mae aelodau'r gangen leol o Ferched y Wawr wedi bod yn ymarfer yn frwd ar gyfer y noson o Frethyn Cartref a gyflwyni i'r gangen yn yr Ysgol nos Fercher, Rhagfyr 8ed am 7.30. Ar ôl y cyflwyniad fe geir swper ysgafn wedi ei drefnu gan y pwyllgor. Nos Iau Rhagfyr 9ed fe fydd Merched y Wawr yn rhoi eu cyflwyniad i aelodau'r Gymdeithas Lenyddol yn festri Capel Bethel.

PLAID CYMRU

Nos Fercher Tachwedd 17eg cynhaliwyd Disgo i bobl ifanc y pentref yn y Neuadd dan nawdd y


gangen leol o Blaid Cymru. Cafwyd noson lwyddiannus a dawnsio brwd i ddisgo John Pritchard.

YR URDD

Mae'r gangen leol o'r Urdd wrthi'n trefnu dwy noson arbennig ar gyfer yr wythnosau nesaf. Y gyntaf yw trip i'r Pantomeim Madog yn Theatr Gwynedd, Bangor. Bydd y plant yn mynd i'r panto nos Fercher Rhagfyr 29ain. Yr ail noson arbennig yw noson o ffilmiau newydd, cartwnau, ffilm Yr Afon, cyngerdd olaf Edward H. Dafis a'r ffilm newydd "Gwaed ar y Ser" a wnaed yn Ysgol Brynrefail a Nant Peris. Bydd Wil Aaron yn dod i ddangos y ffilmiau i'r Urdd a'r pentref nos Wener Ionawr 14eg.

CLWB FFERMWYR IFANC

Ers pythefnos bellach mae'r Clwb a arferai gyfarfod yng Nghaernarfon yn cyfarfod ar nos Fawrth yn y Neuadd. Mae croeso i unrhyw un â diddordeb o Fethel neu unrhyw bentref yn ardal yr *Eco* ymuno â'r clwb. Mae'r cyfarfodydd yn dechrau am 7.30.



O, gofadail gofidiau — tad a mam
Tydi mwy trwy'r oesau;
Ddysgi ffordd i ddwys goffâu
Y rhwyg o golli'r hogiau.

R. Williams Parry.

LLANBERIS

CYFARCHION

Penblwydd hapus i chwi Mam yn 93 oed ar Dachwedd 30 oddi wrth Cledwyn, Betty, Eleri a Valerie Llanberis a John Howard a Mary Y Rhyl.

LLWYDDIANT

Daeth Rhiannon, merch Mr. a Mrs. Selwyn Pritchard, Madryn, yn ail mewn cystadleuaeth unawd piano o safon uchel i rai o dan 12 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Llongyfarchion a phob dymuniad da i'r dyfodol.

CAE CHWARAE COED-Y-DDOL

Trefnir Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Iau 9ed Rhagfyr am 7.30. Cymerir rhan gan Hogia'r Ddwylan, Leah Owen, ac artistiaid eraill. Y Llywydd: Mr. Gwyndaf Parry, Muc. Bac. Bydd tocynnau ar gael (40c i oedolion) ym mhob siop lle ceir poster, a hefyd gan Selwyn Pritchard, Bert Parry, W. Glyn Roberts, Gwyn Williams, Tremor Foulkes, Ken Sellers, Rayford Edwards, John Roberts a Roy Griffith. Bydd gan y cyfeillion hyn docynnau raffi ar werth at y Cae Chwarae. Y raffi yw Lamp Bwrdd Drydan ar ffurf ceffyl a charafan sipsi, rhodd Noel Smythe (MBZ). Tynnir y raffi mewn Bingo Nadolig.

PLAID CYMRU

Cafwyd Disco llwyddiannus yn y Ganolfan y mis hwn, a gwnaed elw sylweddol. Ar nos Iau, 2ail Rhagfyr yn festri Gorffwysfa am 7 o'r gloch agorir y Ffair Nadolig gan Miss Phyllis Ellis. Trefnir lluniaeth ysgafn. Ni dderbynr sborion i'r ffair hon.

YR AELWYD

Cafwyd noson lwyddiannus iawn pan gafwyd dwy sesiwn o ffilmiau, un i'r plant a'r llall yn agored i bawb. Cafwyd dau dy llawn. Diolchir i bawb a fu'n gwerthu tocynnau o'r Aelwyd, Yr adran bentref, ac adran Ysgol Dolbadarn. Gobeithir trefnu i nifer o'r aelwyd ymweld a'r Cartref, Bontnewydd i ddiddanu'r plant o flaen y Nadolig. Dyma aelodau pwyllgor yr Aelwyd: Ysgrifennydd: Ann Evans; isysgrifennydd: Angela Jones, Andre Lambrecht, Medwyn Ll. Roberts

Jane Pritchard, Michael Griffiths, Rhian Parry a Robin Owen.

Y CYNGOR EGLWYSI

Cafwyd cyfarfod gweddi y mis hwn o dan lywyddiaeth Mr. Gwynfor Williams (Gorffwysfa). Cymerwyd rhan gan y llywydd a Mrs. Nancy Jones (Jerusalem), Mr. Thomas Evans (Nant Padarn) a Mrs. Dilys Baylis (Gorffwysfa). Gwnaed casgliad at Gymorth Cristnogol.

CYMDEITHAS LENYDDOL EGLWYSI PRESBYTERAIDD

Cafwyd dau gyfarfod ym mis Tachwedd. Yn y cyntaf cafwyd darlith gan Ifor Bowen Griffith ar "Siarad Cyhoeddus" ac yn yr ail gyfarfod, noson o ffilmiau yng nghwmni Miss Mat Pritchard.

DIOLCH

Dymuna Mrs. Delia Parry Plas Tirion ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phenblwydd y mis diwethaf.

DAMWAIN ANGEUOL

Trist oedd clywed am farwolaeth frawychus merch fach 13 oed Mr. a Mrs. Eric Roberts, Dakota — sy'n byw ar hyn o bryd yn Rochdale. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mrs. P. Batten ar golli ei brawd yn Llundain.

MEWN YSBYTAI

Mae llw o'r pentref mewn gwahanol ysbytai. Ein dymuniad yw 'brysiwch wella' — Mr. Tom Parry, Stryd Yankee; Mr. Eurwyn Roberts, Cambrian Lodge; Miss Dorothy Thomas; Mr. Emyr Jones, Maes Padarn a Mrs. A. Owen, Bron Graig. Ein dymuniadau am adferiad buan i bawb sydd wedi bod yn wael.

TRISTWCH

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. David Griffith, Llwyn Padarn a Mr. Hugh Jones, Stryd y Dŵr. Ein cydymdeimlad â'r teuluoedd.

YN 90 OED

'Roedd Mrs. M. Williams, Creigwel yn 90 oed ar y 27ain o Dachwedd. Penblwydd hapus iawn Mrs. Williams.

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

oddi wrth
DILYS ac ARFON PHILLIPS



Dorothy's

SIOP DAFEDD
A
DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth

SIOP a MODURDY GROESLON MARC LLAN (fihangel-yn-y-g) RUG

Ffôn: CAERNARFON 244

A fydd eich anrheg Nadolig chi wedi ei daflu o'r neilltu erbyn
Ionawr 1af 1977?

Mae arian yn brin — Buddsoddwch nhw yn eich cartref i gael
gwerth parhaol trwy gydol y flwyddyn.

Dewch i weld ein:

Ceginau, Ladylove a Flair; Baddonau (stoc anferth); Gratiau (ar
brisiau gostyngol); Paent; Papur Papuro a Sgwariau Carpedi Dulux
Teils; Cushionfloor a Drysau "Spacesaver" Marley

+ Anghenion Adeiladu — tywod, sment, landeri, ffitiadau plymio
ac ati a Chymhorthion D.I.Y.

A.Winstanley

FFORDD
YR ORSAF

LLANRUG

FFÔN: 2122

Ar Agor Llun — Gwener 9—5; Sadwrn 9—4




CYFARCHION NADOLIG

MWY AR DUDALEN 12

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

Eric Morris



Arvon Coaches LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

GELLWCH
YMDDIRIED
YN

JOHN TREVOR

Garej Hafod Llanrug

am geir newydd
ac ail law rhagorol



DEWCH ATO — WNEWCH CHI DDIM 'DIFARU

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

R&V JONES

SNOWDON STORES
LLANRUG

Ffôn :

CAERNARFON 4472)
PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

DYMUNA
PAT ac ERNIE

GWESTY'R RHYTHALLT Llanrug

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i gwsmeriaid a
chyfeillion oll



MWY AR DUDALEN 12

O LLANRUG



MAE

Sion Corn

WEDI BOD YN BAROD YN SIOP

Eryl

Y SGWÂR LLANRUG Ffôn 2767



Yn ogystal â'n stoc ragorol arferol o Ddafedd a dillad plant mae yma stoc arbennig o ANRHEGION GWYCH i hogia a genod o bob oed.

DEWCH YMA NEU MI FYDD YN RHY HWYRI

CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU AM 1977
oddi wrth

y Siop Sglodion

PONTRHYTHALLT
LLANRUG

CHIPS MWYA' BLASUS Y FRO!

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

YR ARBENIGWYR AR
ATGYWEIRIO MECANYDDOL A
THRWSIO WEDI DAMWAIN

Gwasanaeth 24 awr — Gorsaf M.O.T.

Stuart a Janet Anderson

SNOWDON GARAGE

LLANRUG
Ffôn Caernarfon 3506



* NADOLIG YN Y CO-OP *

BARGEINION BWYD A DIOD

BWYD

Briwdda (Mincemeat)	14½ owns	20c
Cymysgeddau Stwffin	6 owns	8c
Hufen	6 owns	11½c
Diodydd Ffrwythau	25½owns hylif	21c
Margarin Meddal	½ pwys	12c
Sutherland's Spreadables	1¼ owns	9½c
Haneri Gellyg	14½ owns	20c

DIOD

Gwin Petit Chateaux	
Claret / Bordeaux / Lled Felys /	
Gwyn / Anjou Rose	£1.15
Ponti Asti Spumante	£1.29
Wisgi Johnnie Walker Red Label	£3.79
Wisgi William Lawson's	£3.39
Gin Carson's Special London Dry	£3.39
Sieri Benito — Rufon / lled sych /	
sych golau 70cl	£1.29
Sieri Sodap o Gyprus — hufen / lled	
felys / sych golau	£1.05

LLANRUG

ANRHEG NADOLIG ?

Mae yma rywbeth i bawb!

Dillad dynion, merched a phlant

Teganau

Slipars i Nain

Blancedi i Anti Jên

Llyfrau Cymraeg i blant drws nesa

Trons a sanau i Taid

Carpedi i'r tŷ

HYN OLL A LLAWER MWY

7 CEINIOG YN Y BUNT O DIFIDEND I AELODAU'R GYMDEITHAS



BETH AM BWT O GABAN Y CHWAREL?



BU CRYN ymateb i hanes y tân gwyllt yn y chwarel ar achlysur pen-blwydd Syr Michael Duff. Er fod Mr. Harry Jones, Tŷ Uchaf, yn berchen y llun o'r goelcerth, oherwydd oed ac ansawdd y llun, nid oedd modd ei argraffu. Ond dyma Mr. John Williams, Gwel- edfa, Llanrug yn cynnig y llun uchod i'r Eco o'r goelcerth a bar- atowyd i ddathlu achlysur priodasol Syr Michael.

Gyda llaw, byddai'r Golygydd yn croesawu manion o hanesion y chwarel gan unrhyw un. Dim ond codi'r ffôn neu yrru pwt i mewn. Mae'n bwysig fod yr Eco yn cael gafael ar hanesion fel hyn a'u croniclo neu ymhen ychydig flynyddoedd byddant wedi eu colli o'r cof, — a dyna'r fro, ac yn wir, Cymru gyfan yn cael eu hamddifadu o straeon difyr. Dowch, gyn-chwarelwyr, beth am bwt? Efallai y rhydd cerdd anfarwol Rol Williams i Chwarel Dinorwig hwb i rai ohonoch roi pin ar bapur yn syth a dechrau 'sgwennu. 'Roedd Rol yn teimlo ei bod yn ddyletswydd arno ysgrifennu'r gerdd, — beth amdanoch chi?

Chwarel Dinorwig

Cyflwynedig i Hogia'r Wyddfa, am iddynt hwythau, fel finnau, gael eu magu yng ngolwg yr hen chwarel.

Bu Chwarel Dinorwig yn foddion am oes
I ddynion gael cymorth i gario eu croes,
A magwyd sawl teulu ar lafur y gwŷr
Aberthodd eu bywyd rhag dolur a chur;
A glywi di eco'r ffrwydradau di-ri
Yn atsain eu dicter i chwi ac i mi?

A fuost ti, gyfaill, â'th droed ar y grib?
A fuost ti'n rhedeg am loches ar wib?
A fuost ti, dywed, yn cyfrif sawl craith
Oedd i glogwyn y chwarel 'rôl diwrnod o waith?
Mae chwys y blynyddoedd ar goll yn y baw
A thomen ar domen yn swrth yn y glaw.

Ni welir byth eto yr un Cyfri Mawr
A chlwydo am oes mae yr hen "Geiliog Mawr"
Fe giliodd cymdeithas y caban yn llwyr
'D oes neb ar "Bont Bala" y bore na'r hwyr.
Mae'r llwch ar y drafael yn llawer rhy hy'
A'r rhwd yn ei elfen ar draws Gilfach Ddu.

Yn gymorth i lawer bu'r hen Lwybr Main
Ond heddiw mae'n feinach gan laswellt a drain,
'D oes neb wrthi'n "ca'lyn y wagan" ers tro
A'r chwalfa a'r mudo andwyodd y fro.
'D oes dim ond atgofion ac eco yn awr
O firi y caban a'r pâr hoelion mawr.

O Chwarel Dinorwig — mor drist yw dy wedd
Mae bri dy orffennol yn pydru mewn hedd,
Cofadail i'r hogia wyt bellach 'r hen law
Yn byw ar drugaredd y corwynt a'r glaw;
Ond paid digalonni, pwy wŷr yr un pryd
Nad oes mewn anwybod rhyw obaith o hyd?

(Allan o "Bysus Bach y Wlad" L.Lyfrau'r Dryw)



Cofiwch brynu cardiau 'Dolig Cymraeg gan gwmni Waldorf eleni. Sut ydach chi am

eu hadnabod? O, hawdd — mae o wedi ei 'sgrifennu ar y boc: "Cyfarchion Cymraeg — 12 o Cardiau Cymusg Ac Amlenu".

Ol-nodyn: Maen nhw i gyd yn MIXED ac mae 'na envelopes hefo nhw!

1876

PIGION O DDYDDIADUR

Wm. Morris Williams, Bron Fuches Dinorwig.

Ion.26. Marw yn sydyn yn y car gwyllt wrth ddyfod at ei waith Robt. Wm. Roberts, Brynrefail yn 65 ml. oed.

Chwef.11. Marw yn sydyn gyda'i waith yn yr Allt Ddu: John W. Williams yn 75 ml. oed.

Chwef.15. Brawd A.S. Smith Esq., Vaynol yn priodi.

Mehefin 1: Damwain angeuol ar yr Elidir i John Pierce, trwy i ithfaen ymollwng arno; yn 34 oed.

Meh. 8: Mrs. Duff a Mr. Vivian yn priodi ym Mangor, Coelcerth ac ergydio enbyd.


Meh. 14: Seiat Fisol yn Ninorwig.

Tach. 1: Thomas D. Thomas (Glan Padarn) a merch Robt. Black Horse, Clwt-y-Bont yn priodi.

CONC WYDD FOTO

ROEDD y tywydd ar 14eg o'r gwynt cryf a'r glaw trwm a cychwynodd H.S. Perrey ar gefn Llanberis am gopa'r Wyddfa. Dil- hyd lein y trên bach. Cymerodd (349BSA) y llwybr. Ymhen 24 orsaf y copa gan guro amser y munud (oes rhywun yn rhywle w)

Llawer o ddiolch i Mr. D.J. Rwybodaeth a'r lluniau prin a gwe- gefn motor beic i ben yr Wyddfa Gadawn i'r lluniau ddweud yr han-



Y Cychwyn: H.S. Perrey (de) a G. McLean yn Llanberis. Oes rhywun o Lanbêr yn y llun?



Dyry'r llun yma syniad o'r tywydd ar y copa.



BETH sy'n arbennig ynglŷn â'r llun yma? Os am vrybod trowch i dudalen 3.

Y llun trwy garedigrwydd Mrs. N. Hughes, 4 Gwyrfa Terrace, Deiniolen.

RO'R A AR R BEIC

42 yn druenus. Yng nghanol y
10 o'r gloch yn y prynhawn
349BSA o Orsaf y trê'n bach yn
ef gan G. McLean (249BSA) ar
Savage (349BSA) a H. Biggs
6 eiliad chwyrennodd Perrey i
cyflymaf i ben yr Wyddfa o 18
hes y car?)


s, Bryn y Maen, Llangybi am y
wr yma. Bu Mr. Roberts ei hun ar
yr oedd yn adnabod H.S. Perrey.

MANION


gan H.R. Jones, Llanberis
allan o Y GENEDL GYMREIG

DEALLWN fod gwerth ugeiniau o
bunnoedd fel arfer o dorgochiaid
wedi eu dal yn y llyn eleni. Y
mae'r math hwn o bysgod yn
anodd iawn eu cael; y maent yn
rhai blasus ac yn rhai gwerthfawr.
Gresyn na ellir datblgu y
diwydiant hwn i fod o fudd mwy
uniongyrchol i'r ardal.

Y mae tunelli lawer wedi eu dal
eleni a gwerthid hwy am swllt y
pwys. Yn sicr teimlad llawer yw
na ddylid eu gwerthu am y pris
hwn yn y dyfodol ac na fuasai
1s.3c. a 1s 6c y pwys ond pris
rhesymol amdanynt. Oni ellir
ffurfio pwyllgor i ystyried y
priodoldeb o ddatblygu y
diwydiant hwn i fod yn fwy o
fudd i'r ardal? Gallwsid gweld eleni
gynifer â phedwar ar hugain o
gychod ar y llyn gyda thoriad y
wawr, a'r un modd pan oedd
llenni'r nos yn disgyn.
Pwy a etyb?



Un o'r reidwyr uwchben Clogwyn Du'r Arddu. Un camgymeriad a dyna
hi'n nos.



"Llongyfarchiadau, Mr. Perrey," oddi wrth yrrwr y trê'n. Hoffai Eco'r
Wyddfa wybod pwy yw.

Tesni a Chris

DWY O ferched glandeg o Lan
Conwy sydd â chysylltiadau agos
â'r fro hon. Maent wedi bod yn
diddori'r ymwelwyr yng
Ngwesty'r Victoria bron bob nos
Fercher yn ystod yr haf. Cawsant
gyfle i ganu yn Eglwys Llanberis
hefyd, ac mae Mrs. Dilys Baylis,
Llanberis (sydd yn y llun) wedi
'sgrifennu geiriau iddynt. Fasa
waeth ichi ddod i Lanbêr i fyw
genod!



OLION HEN OLWYNION

gan R.W. Rhosbodruall

NID BYSUS gweigion, fel heddiw, na rhedeg ar gardod y
Cyngor Sir, oedd y drefn y pryd hynny. 'Roedd rhyw
gwmniaeth glos ar y bws a phawb yn dod i 'nabod ei gilydd
yn fuan. Pwy oedd y talwyr da a phwy oedd yn 'trio ffegio'.
Cildwrn gan hwn a'r llall oedd 'byrgs' yn iaith hogia'r dre'.
Weithiau byddai ambell un yn cael ei gyhuddo o gymysgu
arian y bws hefo'i arian ei hun, wrth roi newid. Os delid ef yn
y weithred hon, yna byddai wedi ei ddal yn 'byrgio' heb roi
tocyn i gyfrif am y tâl.

Daeth hyn yn fwy i'r amlwg ar
ôl dyfod y Crosful a'i arolygwyr
Tocynnau gan y clywid am rywun
wedi cael y sac am fyrgio. Clywid
am ystrywiau rhai o'r Arolygwyr i
ddal 'byrgiwr amheus' ac fel y
cafodd sachad ar ôl methu ei ddal.

BYSUS LLAWN

Fel y crybwyllwyd, bysus llawn
oedd y drefn rhwng y ddau ryfel
ac am sbel wedyn. Nos Fercher a
nos Sadwrn oedd y ddau achlysur
am fysis llawn. 'Roedd
gwaharddiad ar y nifer o deithwyr
a gâi sefyll yn y bws. Cyfyngid y
rhif i bump i sefyll, ond be'
wnaech ar fws olaf nos Sadwrn
neu (Sadwrn bach) fel y gelwid
nos Fercher?

Prin iawn fyddai bysus ar nos
Nadolig a chofiaf 70 ar fwrdd
Leyland Fawr (TD) yn cychwyn
o'r Maes am Lanberis, nid am 10
o'r gloch ond am 11.00. Ni
wyddai plismyn, ar y Maes, sut i'n
cyfarwyddo ond troi eu cefnau a
wnaethant tra byddem yn
cychwyn i fyny Stryd Llyn. Dyna
gamp hel y ticedi a'r tâl. Rhaid
gwneud fy hun fel slywen i fynd
trwy'r torllwyth hwnnw. Mae'n
dda fy mod yn ifanc ac yn fain y
pryd hwnnw.

CHWILIO AM D.M.

Os gwrthodai neb dalu ar y bws,
yna 'doedd dim i'w wneud ond
aros wrth y Post yn Llanrug a
chwilio am D.M. 'Roedd wedi bod
yn brentis o glarc twrne ar un
adeg, â'i fryd ar y gyfraith, a
gwyddai sut i berswadio talwr
cyndyn i wneud ei ddyletswydd.
'Roedd un cymeriad croes o dan

ddylanwad Siôn Heidden, unwaith
yn gwrthod talu ond pan welodd
D.M. wrth y drws, "Blwyddyn
Newydd Dda i chi syr", meddai
ynghanol Mehefin, a thalu am ei
docyn.

Nº 8837

LICENCE FOR ONE HACKNEY CARRIAGE
DRAWN BY HORSE OR MULE
AT 15s. Od.

Mr. Richard Jones
of Tachwen Farm
in the
Civil Parish or Township of Llanberis
Administrative County of Gwynedd
is hereby authorized to keep ONE HACKNEY CARRIAGE to be drawn by a Horse or
Mule or Horse or Mule and used as a HACKNEY CARRIAGE, from the date hereof
until the 31st day of December in this year, the sum of FIFTEEN SHILLINGS having
been paid for this Licence.
Granted at Llanberis
this fourteenth day of January 1972
by C. Davies

OLION HEN GARNAU

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

SIOP GOED

STRYD FAWR

Llanberis

DIOLCH I BAWB
AM GEFNOGAETH YN
YSTOD 1976 —
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
YN 1977

DEINIOLEN

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau cynnes i Gareth, Eleri ac Eiriona, plant Mr. a Mrs. Arthur Owen, 29 Stryd Newydd, ar ennill sawl gwobr am ganu, adrodd a chwarae piano yn Eisteddfodau Bethel a Dyffryn Ogwen gynhaliwyd fis Tachwedd.

CYNGOR EGLWYSI

Nos Lun, Tachwedd 8fed yn Festri Ebenezer, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi cyntaf y tymor dan nawdd y Cyngor Eglwysi. Llywyddwyd y cyfarfod gan y brawd Donald Jones, Ebenezer a daeth cynrychiolaeth deilwng ynghyd o Eglwysi'r pentref.

YR HEN HERS

Darlun yw'r isod o'r diweddar Mr. John Harris, 'Refail, Clwt-y-Bont, yn gyrru'r hen hers geffyl. Bu Mr. Harris yn gwerthu glo yn yr ardal am flynyddoedd ac yn fawr ei wasanaeth yn cludo eirch yng nghynhebygau'r pentrefwyr dros gyfnod maith efo'i hers. Arferid gwisgo'r hers a'r ceffyl efo rhubanau duon, a dywed rhai y collwyd rhywbeth arbennig o'u plith pan y disodlwyd yr hers geffyl gan un fodurol. Yn Awst 1938 y defnyddiwyd yr hers uchod am y tro diwethaf.



Darlun trwy garedigrwydd Mrs. Agnes Harris, Llangefni.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU

Cyhoeddwyd gan Mr. H. Emyr Pritchard, Trysorydd Pwyllgor Lleol, Cymdeithas y Beiblau (Gangen Deiniolen a'r cylch), bod elw o £215.28 wedi ei wneud o'r Daith Gerdded drefnwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas, a bod cyfanswm y casgliad wnaed o dŷ i dŷ yn yr ardal fis Medi wedi cyrraedd £127.23.

Anfonwyd £107.64 (hanner elw'r Daith Gerdded) i Cymorth Cristnogol a'r gweddill o £234.87 i'r Tŷ Beiblau. Dymuna'r Pwyllgor lleol ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth frwd.

PLAID CYMRU

Yng nghyfarfod Plaid Cymru etholwyd y swyddogion canlynol am 1976/77: Llywydd: Mr. Gwynndaf Roberts; Is-lywydd: Mr. Gwyn Parry; Cyd-ysgrifenyddion: Miss Jean Parc Jones a Mr. Dafydd Wyn Williams, Trysorydd: Miss

Mair Rees Jones, aelodau o'r pwyllgor: Miss Ann Hughes, Mrs. Jane Thorman Jones, Mrs. Hannah Mary Roberts, Mr. Hefin Williams, Mr. Eddie Wyn Lewis, Mr. Caradog Thomas a'r Cyng. Gwyn Oliver Jones.

Cynhaliwyd Ffair Aeaf lwyddiannus nos Wener, Tachwedd 12fed a gwnaed elw o £213. Cyflwynir ddiolch y Gangen i bawb fu'n hyrwyddo'r Ffair.

Y SEINDORF ARIAN

Daeth y Seindorf o fewn trwch blewyn i ennill cystadleuaeth Cymdeithas Bandiau Gogledd Cymru yn Connahs Quay ddydd Sadwrn, Tachwedd 20fed. Fel ag y bu, fe'i dyfarnwyd yn ail efo 81 o fandiau gyda Seindorf Trefor 82 o farciau yn fuddugol o'r chwech seindorf yn y gystadleuaeth. 'Roedd seindorf y pentref yn cystadlu dan arweiniad Mr. John Harrison, Halifax oedd hefyd wedi bod yn ei hyfforddi a'i chaboli am wythnos cyn yr ornest. Llongyfarchion i aelodau'r Seindorf am ddwyn clod o'r newydd i enw da Deiniolen.

Bu'r Seindorf yn brysur ar Sul y Cadoediad pryd y gwasanaethwyd mewn gorymdeithiau adref yn Neiniolen, ym Mangor a Llanfairfechan. Wynebier ar gyfnod o alwadau trymion o ddechrau Rhagfyr tan y Nadolig pan fydd y Seindorf yn ymweld yn wirfoddol ag ysbytai lleol a sefydliadau cyffelyb.

LLENG BRYDEINIG

Y Parch. Geraint Edwards oedd yn gofalu am y gwasanaeth arbennig gynhaliwyd yn Eglwys Llandinorwig dan nawdd y Llang Brydeinig b'nawn Sul y Cadoediad Arweiniwyd gorymdaith yn ôl a blaen o'r Gofeb i'r Eglwys gan y Seindorf ac yn ogystal a'r Llang Brydeinig cynrychiolwyd y Brownies, Girl Guides ac Ambiwylans St. Ioan.

Dymuna'r swyddogion lleol gydnabod cyfraniad pawb fu a rhan yn casglu'r cyfanswm o £100 trwy werthu.

PLAID LAFUR (Deiniolen a Dinorwig)

Gwerthfawrogwyd y gefnogaeth dda i'r Noson Goffi ddiweddar drefnwyd er budd y Gangen leol. Estynnir croeso cynnes i'r Yrfa Chwist nos Wener, Rhagfyr 3ydd (Gweler dyddiadur y mis am fanylion).

CLWB YR HENOED

Cyfarfu'r Clwb ddwywaith yn ystod Tachwedd. Estynnwyd croeso cynnes gan y Llywydd Mrs. C. Marren i Mr. J.D. Evans, Maes-ydref, i ddarlithio yn y cyfarfod cyntaf ar "Ddyddiau 'Mebyd'". Cafwyd gwledd wrth wrando ar Mr. Evans yn traddodi yn ei ffordd gartrefol, yn cael ei gynorthwyo gan ei ferch, Mrs. D. W. Jones, 3 Rhydfadog. Y gwesteion te yn y cyfarfod hwn oedd Mrs. M.G. Williams, Tai Gwledfa, Mrs. E. Williams, Bwthyn, Mrs. M.L. Williams, 8 Ffordd Deiniol a Mrs. H.J. Thomas, 6 Tai Marian. Llywyddwyd yr ail gyfarfod gan

Miss E. Jones, Madryn pryd y cafwyd sgwrs gan y Parch. Eryl Lloyd Davies, Ebenezer ar rai o'r personau fu'n dylanwadu ar ei lencyndod. Diolchwyd i Mr. Davies am ei gyfraniad gan Mrs. J. Lewis, 18 Pentre Helen, Mrs. M. Thomas, 7 Tai'r Faenol a Mrs. E. Williams, Bwthyn. Gwesteion te am y tro oedd Mrs. S. Roberts, Mrs. M. Jones, Hafod Oleu, Mrs. A.L. Jones, 5 Tai Cynfi, Mrs. M. Morris, 9 Tai Marian a Mr. Eifion Williams, Becws.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob rhodd a chymorth parod er gwarantu llwyddiant y Noson Goffi gynhaliwyd ar Hydref 29ain pryd y gwnaed elw o £140.50 tuag at gael Ocsigen Pibell i Ysbyty Bryn Seiont.

MERCHED Y WAWR

Yng nghyfarfod gynhaliwyd ar 15fed o Dachwedd fe'n diddanwyd gan Miss Eirwen Williams, Tŷ'r Ysgol, Llandinorwig. Rhoddodd hanes ei arhosiad am bedair blynedd yn Ne America, pryd y cafodd y syniad o gynllunio a gwau dilladau lliwgar ar gyfer merched.

Bu'n astudio'r grefft ac yna agorwyd Gweithdy ganddi hi a'i ffrind yn Llundain. Erbyn hyn y mae cant o weithwyr ganddynt yn cynllunio a gwau'r dilladau.

Ymwelodd Mr. Dafydd Wigley â'r (Gweithdy ac awgrymodd iddynt gychwyn gwaith cyffelyb yng Nghymru ac mewn canlyniad agorwyd Gweithdy yn Nhŷ Uchaf Deiniolen, lle y cyflogir tair merch yn gweithio amser llawn, ynghyd â chwech yn gweithio yn eu cartrefi.

Dangoswyd detholiad o'r dilladau hardd a lliwgar gan Mrs. Sylvia Jones a Mrs. Linda Hughes sy'n gweithio yno.

Diolchwyd i Miss Williams a'r ddwy a'i chynorthwyodd gan Mrs. Mair E. Morris. Gwesteion y paned de oedd Mrs. Rees-Owen, Mrs. Katie Jones, Miss Eleanor Jones, Miss Kathleen Jones a Miss Priscie Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs. Gwladys Williams, Pentre Helen. Estynnodd y llywydd (Miss Priscie Roberts) groeso i Mrs. Scillicorn ar ei hymweliad â'r gangen, a gwahoddwyd hi i ymuno gan ei bod yn awyddus i ddysgu Cymraeg.

Nos Lun Rhagfyr 20fed ceir cwmni aelodau Merched y Wawr, Caernarfon, gyda rhaglen arbennig ar lafar ac ar gân ganddynt ar gyfer y Nadolig.

Darperir y lluniaeth gan aelodau'r Pwyllgor.

EBENEZER

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Ebenezer nos Sul, Hydref 24ain. Yr organnydd oedd Mr. Richard H. Morris, Caernarfon, ac arweiniwyd gan Mr. Goronwy Jones Llanfairpwll.

Yn ystod y Gymanfa cafwyd unawdau gan Mr. Robert Wyn Jones, Bontnewydd, ac adroddwyd gan Miss Ann H. Roberts, Llanddeiniolen. 'Roedd yr elw tuag at gronfa organ newydd y Capel, a dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd.

PENISAR WAUN

Y BARDD O FRYN EGLWYS

Llongyfarchiadau unwaith eto i Tony Elliott; y tro yma am ennill cadair Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant. Gyda llaw nid oes gwir yn yr honiad bod Tony yn chwilio am Eisteddfod sy'n cynnig crud yn lle cadair am farddoni!



Y madarch anferth a gafodd Mr. E.M. Pritchard, Gwynfa, Penisarwaun. 10½ modfedd ar draws ac yn pwyso 15 owns! Welsoch chi rhywbeth tebyg iddo fo deudwch?

NOSON TÂN GWYLLT

Cafwyd noson Tân Gwyllt ardderchog a'r glaw yn cadw draw. Diolchiadau i bawb a helpodd ac i bawb a ddaeth i weld y tân gwyllt. Ac hefyd i Mr. John Jones, Cae Corniog am ei garedigrwydd yn gadael inni ddefnyddio ei gae.

DYDDIAD I'W GOFIO

Cynhelir Swper Henoed Clwb yr Heulwen yn y Marine Hotel, Caernarfon nos Fawrth, Rhagfyr 14eg 1976.

CYDYMDEIMLAD

Mae cydymdeimlad yr ardal yn mynd tuag at deulu Minffordd ar i Mrs. Owen golli ei brawd ym Mhrestatyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad nos Fawrth, Hydref 26. Cydymdeimlwyd â Mrs. Eurwen Roberts, Llys y Gwynt ym marwolaeth ei chwaer. Darllenwyd y llythyr misol, a phenderfynwyd trefnu i fynd am luniaeth cyn y Nadolig. Treuliwyd gweddill y noson yn edrych ar sleidiau o olygfeydd lleol gan Mrs. Nancy E. Jones, 'Meillionydd'. Darparwyd y te gan Mrs. Roberts, Tai Croesion, Mrs. Mary Davies a Mrs. G. Lewis. Enillwyd y raffl gan Mrs. Nancy E. Jones.

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

IRENE, GEORGE ac ENID

Arton Cafe

STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn 475

LLYFRAU'R NADOLIG

YN DDIOS cyhoeddir nifer go dda o lyfrau Cymraeg y Nadolig yma eto. Yn naturiol, rhown flaenoriaeth yn y golofn hon i lyfrau a gyhoeddir yn y fro neu i lyfrau gan lenorion o'r fro.



Llyfr sydd wedi ei gyhoeddi a'i ysgrifennu ym mro *Eco'r Wyddfa* ydyw llyfr diweddaraf Selwyn Griffith, Bethel — Dewch i Adrodd Eto. Mae'n amheus gen i oes rhywun yng Nghymru all gystadlu â Selwyn yn y maes yma. Dyma a ddywed y Prifardd Gerallt Lloyd Owen amdano yn ei gyflwyniad i'r llyfr, "Mae'n fardd, mae'n athro, ac mae'n feirniad. Drwy fod yn fardd ac yn athro y mae ar unwaith ar yr un donfedd a phlant. Drwy fod yn feirniad y mae'n gyfarwydd â'r anghenion ychwanegol sy'n gwneud darn o farddoniaeth yn ddam adrodd da.

Mae'n ysgrifennu ar destunau cyfoes megis "Mynd i'r Lleud", "Jam Traffig", "Siop Tesco", "Y Concorde". Dylai'r llyfr yma fod yn hosan Nadolig Plant Cymru, ac yn sicr ym meddiant trefnyddion a charedigion Eisteddfodau.

Dyma ragflas i chwi o un o'm hoff gerddi i:

KOJAK

Mi hoffwn fod fel Kojak
Â'm pen yn foel i gyd,
O dyna braf cael sbario mynd
I dorri 'ngwallt o hyd.

Dim esgus i mam swnian
A weithiau ddwrddio'n hallt
A dweud gan wylltio — "rwyf ti'n flêr
Dos wir i gribo'th wallt".

Mor lwcus ydy Kojak
Heb flewyn ar ei dop,
Yn mynd ar ôl y lladron drwg
Gan lyfu lolipop.

Be'di'r ots am gyrils fel Neli,
Neu resan wen fel Noel,
Yn siwr i chi mae'n llawer gwell
Cael sgleinar o ben moel.

Mi hoffwn fod fel Kojak
Ditectif gorau'r wlad,
A 'mhen i'n sgleinio fel yr haul
Wir, — pen 'run fath â nhad.

Ychydig iawn o lyfrau a yrrwyd gan y cyhoeddwyd i *Eco'r Wyddfa* — ond diolch i'r rhai hynny a fentrodd! Oherwydd diffyg gofod ni allaf ond nodi y lyfrau yma.

DWY DDRAMA gan Marged Pritchard — Gwasg Gwynedd, Nant Peris. Drama i ferched yn unig yw "Cylymau" a seiliwyd y llall "Disgwyl" ar stori fer gyfoes gan Marga Minco, 'Pentre fy Mam'. Ffrwyth cystadlu yw'r ddwy ddrama gan un o lenorion gorau Cymru.

Pris: 65c.

Y LLEWOD Cyfres sydd wedi gafael yn nychymyg plant Cymru yw cyfres Y Llewod gan Dafydd Parri. Fel athro gallaf ddweud heb flewyn ar fy nhafod fod y gyfres yma yn werth pob dimai ac yn anrheg gwerth chweil i'r plant y Nadolig yma. Cynnwys y gyfres 8 llyfr. Mae'r ddau lyfr diweddaraf wedi ymddangos eisoes "Y Llewod Ar Bigau'r Drain" a "Y Llewod Yn Dal Ysbryd". Blant os ydych am ddarllen anturiaeth cynhyrfus a pheryglus — cyfres y Llewod amdani. Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan y Lolfa.

Pris: 65c. yr un.

DRYLLIO'R HOLL GADWYNAU. Llyfr gan yr enwog Gwilym O. Roberts a'r deunydd wedi ei ddethol a'i olygu gan Elinor Lloyd Owen. Dyma ddywed y Cyhoeddwyd am y llyfr a bodlonaf innau eu "Amenio".

"Dryllio'r holl gadwynau — cadwynau crefydd ddogmatig, a chadwynau mewnol y meddwl caeth: dyna destun a gorchwyl y llyfr hwn. Mae Gwilym O. yn olrhain ei bererindod dymhestlog ei hun, ei ymchwil am ryw sicrwydd yng nghanol stormydd seicoleg fodern, ond Ddarllenwyd — Cymer Ofal! Ni ellir darllen yr hanes hwn heb beryglu'r cadwynau trymion sy'n hongian am dy enaid dy hun."

Y Lolfa: Pris: £1-25.
BARDIDAS

Cyn tewi rhaid llongyfarch golgyddion "Barddas" ar ôl cael cip ar eu rhifyn cyntaf. Cylchgrawn Cymdeithas Cerdd Dafod Cymru yw "Barddas". Mae croeso i bawb yn ardal yr *Eco* sydd â diddordeb yn y 'pethe' ymuno â'r gymdeithas — dim ond i chwi roi pin ar bapur a gofyn am fanylion gan y Prifardd Gerallt Lloyd Owen Gwasg Gwynedd, Nant Peris — neu yrru £2 iddo ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad.

OXFAM ANGEN CYMORTH

MAE angen mawr am flancedi i helpu dioddefwyr daeargryn Twrci. Cysylltwch â Linda Jones, Llanrug, Oxfam, Pantmwyn, Llanrug, Caernarfon 3838.

Y Lolfa
Talybont
Dyfed

Barchus Olygydd,

Tybed a gawn ni fanteisio ar eich colofnau i ofyn am gymorth i gyhoeddi llyfr Cymraeg o fath newydd, sef "Tafarnau Cymru". Ein cais yw am gymorth ymarferol i gasglu enwau tafarnau (a gwestai trwyddedig a chlybiau) o gymeriad ac awyrgylch "Cymreig".

Mawr hyderwn fod ardal *Eco'r Wyddfa* yn cynnwys amryw sefydlaiddau sy'n teilyngu eu cynnwys.

Y mae'r ffurflenni perthnasol i'w cael o'r cyfeiriad isod, yn rhestru'r manylion a dymunwn eu cofnodi. Apeliwn atoch i anfon amdanynt oherwydd mae'n sicr y cytuna pob Cymro — hyd yn oed y llwyr-ymwrthodwr mwyaf rhonc — ei bod yn hen bryd dwyn pwysau i Gymreigio tipyn ar dai tafarnau ein gwlad.

Yr eiddoch &c.,
E. Ioan ac R. Gruffudd
(ar ran y Pwyllgor Dewis)

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

**TOM
JONES**

A'R CWMNI

STORFA GIG
GLYN PADARN
LLANBERIS
(Ffôn 319)

Dewch atom am eich
tyrcwn, gwyddau,
cig moch ac ati
y Nadolig hwn

I. ELLIS JONES MPS

FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE

LLANBERIS Ffôn: 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau

COTY, LENTHERIC, YARDLEY
MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau

AGFA, KODAK a FUJI

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

DINORWIG

CYDYMDEIMLO

Hydref 23 yn Ysbyty Dewi Sant Bangor bu farw Mr. Tom Parry, Foelgron, yn 72 ml. oed. Cydymdeimlir â'i chwaer Mrs. Kate E. Jones, Foelgron a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth. Cydymdeimlir hefyd â Mr. a Mrs. John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ym marw tad Mr. Roberts yn Llanberis.

O'R YSBYTY

Da gennym ddeall fod Mrs. A. Phillips, 6 Maes Eilian wedi dod adref o'r Ysbyty. Gwellhad buan fo iddi.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL

Nos Iau Hydref 21 yn y Ganolfan agorwyd tymor newydd y Gymdeithas gyda chyngerdd gan "Barti Llew" Dyffryn Nantlle. Yr arweinydd oedd y Parch. Idris Thomas, Llanaelhaearn. Y llywydd oedd Mr. Harri Jones, Caernarfon a roddodd rodd haelionus i gyllid y Gymdeithas. Croesawyd y Parti a'r llywydd i'r Gymdeithas gan Mrs. Alice Griffith, a thalwyd y diolchiadau gan Mr. O.R. Williams.

Nos Iau Tachwedd 4ydd cafwyd sgwrs ddiddorol a dangosiad o sleidiau ar Gynllun Trydan Dinorwig gan Mr. R. Iorwerth Ellis gweinyddwr gweithredol y gwaith. Talwyd y diolchiadau gan Mr. David L. Hughes.

Nos Iau Tachwedd 18 bu Seiat Holi ddiddorol iawn dan lywyddiaeth yr holwr Parch. Ifor L. Williams, Bangor. Aelodau'r panel oedd Miss Ellen Wyn Jones; Mrs. Jennie Williams; Mr. David L. Hughes; Mr. David J. Thomas; Mr. Eddie Wynn Lewis. Talwyd y diolchiadau gan Mr. John Peris Roberts. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas yn y Ganolfan am 7 o'r gloch, nos Iau Rhagfyr 2ail pryd ceir sgwrs gan Mr. John Roberts, Warden y Parc Cenedlaethol.

DYMUNO'N DDA

Daeth Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, adref o'r Ysbyty wedi triniaeth, dymunir gwellhad pellach iddi.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Morris Perkins, 5 Bro Elidir ar ennill ohono'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eleni am wneud llawfwrdd (tray) yn yr Adran Gwaith Llaw.

MUDIAD ADFER

Cynhaliwyd disco yng Nghanolfan Cymdeithasol Dinorwig gan Fudiad Adloniant Adfer, Dinorwig a'r cylch nos Wener 29ain o Hydref. Daeth dros gant o ieuenctid yr ardal at ei gilydd i fwynhau eu hunain, drwy gerddoriaeth Disgo'r Fro. Diolch yn fawr i bawb a weithredodd yn ein plith. Bydd yr elw yn mynd at Fudiad Adfer, ymgyrch y Fro Gymraeg. Gobeithiwn am ddisgo Nadolig ar y 17eg o Ragfyr, croeso cynnes i bawb.

ARCHEBWCH ANGHENION
Y NADOLIG RWAN YN
STORFA

Mace
S.&E.
Jones
Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

MWY
O GYFARCHION
NADOLIG
O BOB
CWR O'R FRO
YN
Y RHIFYN
NESAF!

ARCHEBWCH
EICH
CIG
AR
GYFER
Y
NADOLIG
RWAN!
oddi wrth

WAVELL
ROBERTS

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn Caernarfon 3574

*i fod yn saff o gael
y gorau*

Danfonir i bob cwr

STAMPIAU GWYRDD I
EISTEDDFOD YR URDD

A THROWCH Y DARIAN YN
WYRDD

MEWN ymgyrch i wynebu'r gost enfawr o £70,000 mae Pwyllgor Eisteddfod yr Urdd yn nhref y Barri wedi taro ar gynllun gorwych.

Maent am gasglu stampiau 'Green Shield'. Cytunodd y cwmni stampiau i dalu 60 ceiniog i gronfa'r Eisteddfod am bob llyfr a gesglir.

Beth amdani bobl bro'r Eco? Gyrrwch un iddynt. Pe bai 83,400 o bobl Cymru yn cytuno ar hyn byddai'n golygu elw o £50,000 i'r Urdd. Maent yn cynnig set deledu lliw i'r ysgol a fedr gasglu fwyaf o lyfrau.

Gellir eu gyrru i Swyddfa'r Urdd Aberystwyth.

Mae Cwmni 'Green Shield' wedi cytuno i gynorthwyo bob blwyddyn.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

Gwsmeriaid Hen a Newydd
oddi wrth

SIOP DELEDU

T
CEPAS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

SETIAU TELEDU AIL-LAW
PENIGAMPI
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX



*Dim un deag rhy fychan,
Dim un deag rhy fawr.*

CHWEDLAU'R
FRO  gan **JOHN OWEN HUWS**

SANT PERIS

CYFEIRIAIS yn rhifyn y mis diwethaf o'r Eco at Peris, sant enwocaf y fro a'r modd y gadawodd ei enw yn yr ardal.

Un o nodweddion ein saint lleol ydyw fod llawer o lefydd a phethau heddiw yn gysylltiedig â hwy. Un peth a gysylltir â phob sant yw ffynnon sanctaidd. 'Roedd gan Peris yntau ei ffynnon, sef Ffynnon Peris ger Tŷ'n Ffynnon, nepell o eglwys Nant Peris. Yr enw a roddodd rheithor y plwyf, Peter Bailey Williams, arni yng nghofrestr yr Eglwys yn niwedd y ddeunawfed ganrif oedd 'Ffynnon y Sant'. Amgylchynir y ffynnon gan wal ac oddi mewn mae mainc lechan.

'Roedd Ffynnon Peris yn enwog gynt fel ffynnon rinweddol. Un o nodweddion hynod y ffynnon oedd brithyll mawr a drigai ynddi. Credid os deuai'r brithyll i'r golwg i wyneb y ffynnon fod hynny'n arwydd da. Os na ddeuai, 'roedd yn arwydd drwg. Cyrchai cannoedd o gleifion at y ffynnon yn y gorffennol gan obeithio gweld y brithyll, a gwybod eu bod i fendio. Pa âi'r pysgodyn yn hen tynnid ef o'r ffynnon a rhoid un newydd yn ei le. Ceir nifer o ddogfennau yn sôn am newid y pysgod a chredaf i'r olaf farw tua dechrau'r ganrif hon. Yn ôl rhai, sliwen oedd pysgodyn y ffynnon. Os clymai'r sliwen am berson afiach a safai yn y ffynnon, fe gâi wellhad. Dywed chwedl i ferch ifanc drochi yn y dŵr ac iddi farw o ddychryn pan deimlodd y sliwen yn clymu ei hun amdani. Dywedir fod pysgodyn fel hyn yn Ffynnon Dwynwen ar Ynys Llanddwyn am flynyddoedd lawer hefyd.

CHWEDLAU
WILLIAM ROWLANDS

Un o ysgolheigion mwyaf Cymru oedd Edward Llwyd (1660-1709) a chafodd ŵr lleol o'r enw William Rowlands i gofnodi chwedlau am Peris iddo. Dywedodd mai Peris oedd nawdd Sant Nant Peris, (a alwai ef Llanberis Uchaf), Llangian, Llyn (a alwai ef Llanberis Isaf) a Chaer-gybi. Un tro 'roedd yn teithio o Nant Peris i Llangian dros fwlch

creigiog rhwng Moel Hebog a'r Foel Ddu, ger Beddgelert, pan syrthiodd ei geffyl. Dywedir fod ôl carn y ceffyl i'w weld yn y graig hyd heddiw, ac mai dyma ystyr enw'r bwllch, sef Bwlch Tros Ôl y March neu Fwlch Dros Lymarch ar lafar.

Soniais yn ail rifyn yr Eco am rai o'r traddodiadau am Peris a dyfodiad y torgoch i ardal Llanberis. Cysylltir ef hefyd ag eogiaid. Yn ôl William Rowlands, 'roedd Peris yn croesi'r afon Erniach pan ddychrynwyd ei geffyl gan sŵn eog yn claddu yn y gro. Oherwydd hyn tyngodd lw na fedrai'r pysgod byth ddianc o'r fan. Tybed a fedr rhai o'r pysgotwyr sy'n darllen hyn brofi geirwired y chwedl?

MARWOLAETH SANT PERIS

Dro arall 'roedd pedwar ar hugain o ddisgyblion Peris yn ymweld â chleifion yr ardal pan ddaeth claf atynt yng Ngwaun Cynfi a dweud wrthynt am ei farwolaeth. Dychrynwyd hwy gan erchyllter y newydd a gosododd pob un ei ffon, oedd â blaen haearn, mewn craig a safai yn y fan. Gwelir y garreg hyd heddiw gyda dau ddwsin o dyllau ynddi.

Pan fu Peris farw claddwyd ef yn y fan lle saif Eglwys Nant Peris yn awr a gosodwyd maen mawr ar ei fedd. A ŵyr rhywun rywbeth am y maen hwn a hefyd Fwrdd a Gwely Peris, y sôn William Rowlands amdanynt, ond heb ddweud beth oeddynt na lle'r oeddynt i'w gweld?

Ar ddydd angladd MRS. ELERI WYN JONES (Glanffrwd, Deiniolen gynt). Bu farw yn 28ain mlwydd oed — Hydref 20red 1976

Ffyrnig y glaw yn Nyffryn Clwyd, — du alar!
Di-olau yw'r aelwyd:
Yr edau aur a dorrwyd.

Torrwyd cyfamod tirion — y ddeuddyn,
O! ddioddef creulon,
Cau fu raid ei llygaid llon.

Hen 'dynernwch' Llandinorwig, — Bronwydd
A bryniau Arennig,
— Y bura'i hoes ar eu brig.

Brig ei Ffydd a ddiffydd wae — a hiraeth
Ei cheraint; drwy'r loesau
Heriodd ing, concrodd angau.

E. Gwyndaf Evans



DOLBADARN

Tîm o Ysgol Dolbadarn, Llanberis a fu'n llwyddiannus yng nghystad-leuaeth 'Taro 'Mlaen' ar Deledu Harlech. Aelodau'r tîm yw Robin Davies, Carol Wyn Jones, Michael Roberts, David Arfon Hughes a Debbie Harris.

Maes y Mepched

DANTEITHION NADOLIG

OS ydych chi mewn penbleth beth i'w brynu i'r hon a hwn yn anrheg Nadolig tybed a fyddai melynion cartref yn ateb eich problem?

Maent yn syml i'w gwneud ac wedi eu lapio a'u haddurno'n ofalus, maent yn aml yn golygu llawer mwy nag anrheg wedi ei brynu'n sydyn mewn siop.

Dyma ddau fath o ddant-eithion poblogaidd iawn:

PEPPERMINT CREAM SIOCLED

14 owns siwgr eisin

1 gwynwy

dau ddiferyn o sudd peppermint

dau ddiferyn o liw gwyrdd

4 owns o siocled golau.

Rhidyllwch yr eisin.

Wedi cymysgu'r gwynwy, lliw gwyrdd a'r sudd peppermint mewn dysgl, rhowch ychydig ar y tro o'r eisin ato nes fod y cynhwysion yn ffurf past gweddol sych. Cymysgwch hwn gyda'ch llaw i'w lyfnhau.

Rholiwc y cymysgedd allan i drwch o hanner modfedd a thorri allan cylchoedd modfedd ar draws. Rhowch y melynion ar bapur gwrthsaim i'w sychu dros nos.

Toddwch y siocled mewn dysgl uwchben dŵr poeth. Yn ofalus rhowch gôt o siocled ar bob 'cream' a'i adael i galedu ar weiren oeri.

*Difyrwch i'r plant ar bnawn gwlyb.

TRYFFL RWM

3½ owns o siocled plaen

2 owns o fenyn

PWY SYDD AM ENNII 'RECORD'?

DDECHRAU'R flwyddyn nesaf bwriedir cyhoeddi cylchgrawn i ddysgwyr gan Gyhoeddiadau Mei, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon.

Bydd allan yn ddeufisol a bwr-iedir cynnwys newyddion o bwys i'r dysgwyr, newyddion am ddysgwyr a'r dosbarthiadau ac hefyd erthyglau eyffredinol, megis chwaraeon, cerddoriaeth ysgafn, byd natur, straeon byrion ac ati, wedi eu symleiddio ar gyfer y dysgwyr.

2 felynwy

2 llond llwy fwrdd o rwm

4 owns llwch almwnd

6 owns siwgr eisin

1 w gorffen

2 llond llwy fwrdd powdwr coco

3 llond llwy fwrdd vermicelli siocled

Wedi toddi'r siocled a'r menyn uwch padell o ddwr poeth, cymysgwch i mewn y rwm a'r ddau felynwy.

Tynnwch oddi ar y gwres a rhoi at y cymysgedd y llwch almwnd a'r siwgr eisin wedi'i ridyllu. Gadewch yn yr oergell am 1½ awr nes mae'n ddigon caled i'w siapio.

Rhennwch y tryffl yn 40 o ddarnau a'i siapio'n belli. Rhowch gôt o siwgr coco dros hanner y pelli a vermicelli siocled ar y gweddill.

Gellir cadw'r rhain am wythnos yn yr oergell.

SYNIAD GORAU'R MIS

Wedi'r plant orffen gwneud jig-saw newydd trowch y llun â'i wyneb i lawr a lliwio ar draws cefn y cwbl. Bydd yn hawdd gwybod wedyn i ba lun mae'r darnau'n perthyn.

Pob hwyl dros y Nadolig!

Golygyddol: Pob hwyl i Rhiannon dros y Nadolig. Bydd yn torhëulo yn y Persian Gulf tra byddwn ni yn cysgu ar ôl y twrci!

Buasai'r cyhoeddwy'r yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un a all gyfrannu i'r papur, gwerthu copïau neu hysbysebu ynddo.

Ar hyn o bryd nid oes enw i'r cylchgrawn, ac felly, cynnigir gwobr o unrhyw record Sain am enw addas i'r cylchgrawn — felly gyrrwch eich cynigion gan nodi pa record y buasech yn hoffi pe byddech yn ennill i'.

Cyhoeddiadau Mei, Bryn Mair, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon ar unwaith!

O SENEDDAU'R FRO

MAE'N syndod faint o welliannau sy'n dod i ardaloedd cefn gwlad drwy i'r Cynghorau Cymdeithas swmian yn barhaus ar i'r Cynghorau 'Mawr' roddi sylw i broblemau lleol. Rhaid cyfadde mai nid pob amser y bydd y 'swmian' yn llwyddiannus, ac y cymer flynyddoedd o lythyru a pherswâd weithiau cyn y llwyddir. Bu Cyngor Llanddeiniolen yn erfyn ers blynyddoedd am gael gwell system o olau cyhoeddus i ardal Deiniolen, ac o'r diwedd fe DDAETH GOLEUNI. Gobeithio'n wir y bydd i'r Cyngor Sir ystyried eu cais i ymestyn y cynllun hwn i ben draw Dinorwig. Maent wedi cytuno i gynnwys Fachwen yn y cynllun, a ffolineb rhonc fyddai gadael y rhan beryclaf o'r plwyf heb olau safonol.

Fe ddylai ein trethdalwyr sylweddoli a gwerthfawrogi y gwaith tawel a wneir gan y Cynghorau bychain — 'sinderelas' ein llywodraeth leol. Cofiw'n hefyd mai ein Cynghorwyr Cymdeithas yw'r unig gynrychiolwyr etholaeth sy'n rhoddi eu hamser yn rhad ac am ddim er lles eu cymdeithas. Ni thelir hyd yn oed eu costau teithio i'r Cynghorwyr Cymdeithas.

Mae'n wir dweud i ni gael llawer o welliannau i'r cylch 'ma yn sgil Cynllun Dinorwig — petai ond y ffyrdd newydd. Sylweddolwn fodd bynnag, fod mynediad amryw o'r hen ffyrdd gwledig sy'n arwain i'r ffyrdd newydd heb gael eu cwblhau yn foddhaol o gwbl. Fwrdd Trydan neu Gyngor Sir — pwy bynnag sy'n gyfrifol — beth am gwblhau y gwaith yma yn ddi-oed rhag ofn i ddamweiniau ddigwydd?

Diolch i Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen am eu hymdrechion i geisio sicrhau hawl i'r cyhoedd gael mynd yn ddi-dramgwydd at olion yr hen Gaer Rufeinig ar Ben Caerau. Does 'na 'run llwybr cyhoeddus swyddogol yn arwain at y lle hynafol hwn, ac mae'r Cyngor am dynnu sylw Archifydd y Sir at y ffaith, oherwydd i amryw gael eu gwahardd rhag mynd yno yn ystod yr haf.

Gresyn nad yw'r hawl gennym i weld â'n llygaid ein hunain, yr olygfa a ddarlunir mor wych gan Mr. Alun Llywelyn Williams yn ei gyfrol odidog 'Crwydro Arfon' ac wrth gwrs, gan y diweddar Dr. W.J. Gruffydd yn ei 'Hen Atgofion.'

NEWYDDION HWYR (Parhad)..

DEINIOLLEN

SEFYDLIAD Y MERCHED

Fis Hydref daeth Mr. J. Evans yr Iard, ei ferch a Mr. Eddie Wyn Lewis i roi gwledd arbennig o 'Atgofion' i ni. Mae'r Sefydliad yn edrych ymlaen am noson eto ganddynt.

Fis Tachwedd croesawodd y llywydd Mrs. Mary Vaughan Jones o'r Waunfawr atom. Cawsom luniau, a hanes Paris ganddi. 'Roedd lluniau rhai o blant Deiniolen gyda hi ar drip cynharach ac felly cafwyd sgysiau difyr iawn. Diolchwyd iddi gan amryw. Rhoddwyd y te gan Mrs. Price, Wenallt, Miss. N. Roberts, Derlwyn a Mrs. M. Thomas a Mrs. Hughie Jones, Vaynol Terrace. (Mae Mrs. Jones wedi bod yn bur wael ac mae aelodau y Sefydliad yn cofio ati). Enillwyd y Raffl gan Mrs. Katie E. Davies, Tai'r Glyn. Edrychir ymlaen am bresenoldeb llawn yn y Cyfarfod Blynnyddol ar Ragfyr 6ed — Mrs. Vera Hughes fydd y V.C.O. Bydd y swper ar Ragfyr 10fed.

LLANRUG

PANTOMEIM

Trefnir bws i gludo pobl i'r pantomeim ar 23ain Rhagfyr yn Theatr Gwynedd. Oedolion £1, Plant a Phensiynwyr 60c. Gyrrwch eich enwau i Mrs. Sian Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

PWLL MOELYN

Mae ymgyrch gasglu arian tuag at ddatblygu Pwll Moelyn ac Ysgol Glan Moelyn wedi cychwyn. Mae Raffl Nadolig ar werth a bydd ymgyrch gasglu hen bapur newydd yn cychwyn yn y flwyddyn newydd.

LLYTHYR PWYSIG

Annwyl Olygydd,
Mynnwch ymchwiliad cyhoeddus i gais British Nuclear Fuels Ltd. i ehangu cyfleusterau ail brosesu niwcliar yn Windscale.

Mae peryglon di-bendraw ynghlwm wrth y bwriad i ehangu.

Ysgrifennwch at eich aelod seneddol ac at Peter Shore, Secretary of State for the Environment, Department of the Environment, 2 Marsham Street, London SW1.

Manylion pellach: Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug (C'fon 3838)

Ar ran Cyfeillion y Ddaear Môn ac Arfon.

NEWYDDION HWYR

BETHEL

Nos Wener, Tachwedd 12ed enillodd Morus Gyfanedd o'r Friog, Meirionnydd ei bumad cadair ar hugain am gerdd ar y testun 'Argyfwng' yn Eisteddfod Gadeiriol Bethel. Yn ei feirniadaeth canmolodd Mr. Glyn Owen, Pwllheli y gystadleuaeth ar ei safon uchel. Gallai fod wedi rhoi'r gadair i un o dair cerdd.

Edmygwr oedd y buddugwr yn y gystadleuaeth englyn digrif ar y testun 'Tights'.

Yn giwt o dan sgert gwt a — dyry liw

Dyry lun i'r clunia;

Neilon dros fwyn benola —

A sioe ddol i ddwy goes dda.

LLANRUG

MISS M.J. OWEN

Chwith oedd clywed am farwolaeth Miss M.J. Owen, Rhos Ddu. Bu Miss Owen am flynyddoedd yn athrawes yn Ysgol Ganol Llanrug o dan Mr. G.T. Roberts, Mr. R.A. Pritchard a Mr. C. Williams. Bu am gyfnod yn rhan Bryn Eryr o'r ysgol ond gydag adrefniant a chreu ysgolion cyfun yn yr ardal peidiodd Ysgol Bryn Eryr â bod a daeth Miss Owen i lawr i'r "Ysgol Fach" lle y bu llawn mor effeithiol fel athrawes plant iau ag yr oedd fel athrawes plant hŷn.

Yr oedd yn arbennig o dda yn ei gwybodaeth o fyd natur y fro; ac mewn Cymraeg y byddai'n trafod ac enwi'r creaduriaid, blodau a choed yr ardal. Profodd hi flynyddoedd yn ôl bod modd dysgu Natur yn rhwydd yn iaith y plant eu hunain.

Y BAND

FFAIR SBORION

Cynhaliwyd Ffair Sborion yn Feed My Lambs Caernarfon ar ddydd Sadwrn Hydref 30ain a braf yw gallu dweud y gwnaethpwyd elw da. Diolchiadau i bawb a gymerodd ran yn y llwyddiant. SEINDORF IEUENCTID GWYNEDD

Llongyfarchiadau i Rhys Jones, a Nicky Lewis, dau aelod o'r Band ar gael eu derbyn i Seindorf Ieuenctid Gwynedd.

TOMBOLA

Mewn pwyllgor penderfynwyd cynnal Tombola yn yr ysgol nos Iau Rhagfyr 16eg. Hefyd cynhelir Parti Nadolig i aelodau ifainc y Band.

BEDYDD

Prynhawn Sul Tachwedd 7fed a'r gweinidog, y Parch. W.O. Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd yn y Capel Mawr, Nia Gwawr, merch Douglas ac Avril Ann Jones, 14 Minffordd; hefyd Wendi merch William Richard a Meirwen Thomas, Feolas.

CYMDEITHAS UNDEBOL

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth y 16eg cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr. Rol Williams, Waunfawr ar Hen Eisteddfodau'r Cylch. Llywyddwyd gan Mrs. Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg a thalwyd diolchiadau iddo gan Mrs. C. Williams, Gwelfryn a'r Parch. W.O. Roberts. Mewn cyfarfod blaenorol gyda Miss Megan Humphreys, Tanycoed yn llywyddu, cafwyd sgwrs gan y Parch. W.J. Thomas, Caernarfon ar Gymeriadau Cefn Gwlad. Diolchwyd iddo gan Mrs. N. Roberts Llys Eiddon. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 30ain pryd y disgwylir Mr. Robert Williams, Rhosbodrual i annerch.

MERCHED Y WAWR

Arddangosfa coginio oedd cyfarfod mis Tachwedd. Dangosodd Mrs. Lloyd o Ysgol Brynrefail inni sut i wneud amryw o ddanteithion arbennig ar gyfer y Nadolig. Mrs. N. Roberts, y llywydd, oedd yn y gadair a diolchwyd gan Mrs. Pritchard

Pensarn a Mrs. Megan Roberts. Cydymdeimlwyd â rhai o'r aelodau sydd yn wael. Cynhelir parti Nadolig ar y 14eg o Ragfyr yn yr Ysgol Gynradd.

CYMDEITHAS CHWIORYDD

Nos Iau Tachwedd 4ydd am saith o'r gloch cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Myfi Roberts, Plas Tirion Terrace. Anfonwyd ein cofion at y chwiorydd sydd yn wael, a diolchwyd am roddion gan y chwiorydd oedd yn methu bod yn bresennol. Gwnaed trefniadau at y Ffair Nadolig. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. L. Horman, Venice a Mrs. M. Jones, Ogwen. Diolchwyd iddynt gan y llywydd Mrs. W.O. Roberts, Llys Eiddon.

GOBEITHLU MAWR

CAPEL

Nos Lun, Tachwedd 8fed am 6 o'r gloch cafwyd y Gobeithlu. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Susan Jones, Nantglyn. Treuliwyd y noson yn dysgu carolau newydd dan arweiniad medrus Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel. Diolchwyd i Mrs. Pierce gan y llywydd y Parch. W.O. Roberts, Llys Eiddon.

Nos Lun Tachwedd 14 dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Petula Williams Regent House. Dangoswyd dau ffilm ar hanes y Nadolig cyntaf gan Mrs. W.O. Roberts, Llys Eiddon, yr oedd y projector yng ngofal Mr. John Williams, Gwledfa. Cyfeiliwyd gan Mrs. Ifan Roberts, Tŷ Capel. Nos Lun Tachwedd 22 dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Gwawr Owen, Rhos Elan. Dysgwyd carolau newydd i'r plant gan Mrs. Eirlys Pierce. Llywyddwyd gan Mrs. Nansi Roberts, Llys Eiddon.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Nos Iau, Tachwedd 11eg am saith o'r gloch cafwyd y gymdeithas. Daeth parti o Goleg Prifysgol Bangor i'n diddori a chafwyd noson i'w chofio. Llywyddwyd gan Rheon Thomas, Gerallt (myfyriwr yn y Brifysgol). Diolchwyd i'r parti gan y Parch. W.O. Roberts yn cael ei gefnogi gan Miss L.M. Hughes, Bryn Moelyn. Darparwyd lluniaeth ar gyfer y parti gan nifer o

chwiorydd y gymdeithas. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Tachwedd 23, pryd y bydd y gymdeithas yn uno gyda chymdeithas lenyddol Bethel dan arweiniad Mr. Rol Williams, Waunfawr.

MARW

Yn Ysbyty Clatterbridge, Glannau Merswy, bu farw William Ellis Griffiths, Fron Ganol yn 70 mlwydd oed. Brodor o Lanrug oedd Mr. Griffiths er iddo dreulio rhai blynyddoedd o'i oes yng Nghaernarfon. Yr oedd iddo ddiddordebau lawer ond yn sicr ei brif ddiddordeb oedd Clwb Blodau'r Grug. Iddo ef y mae'r diolch gan fwyaf am sefydlu'r clwb. Rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Eglwys Sant Mihangel. Bu gwasanaeth yng nghapel Hermon lle yr oedd yn aelod a chymerwyd rhan gan ei weinidog Y Parch. G. Brewer a gan y Parch. W.O. Roberts, a'r Parch. D. Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug. Da oedd gweld nifer o'i gyfoedion yn bresennol a'r rhan fwyaf o aelodau Clwb Blodau'r Grug. Cydymdeimlwn â'i weddw, ei fab a'r teulu a phawb arall o'i berthnasau. Fe fydd coffa yn cael ei wneud amdano yng ngwasanaeth Carolau Clwb Blodau'r Grug brynhawn Iau 9ed Rhagfyr.

CYMDEITHAS Y GWEINYDDSAU

Cyfarfu cymdeithas y Gweinyddesau o dan lywyddiaeth Mrs. D.G. Williams, yn y Rheithordy yn ddiweddar. Y wraig wadd oedd Mrs. Lloyd Jones, Bangor, swyddog gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Darparwyd te gan Mrs. Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn a Mrs. Williams y Rheithordy.

YN GWELLA

Da ydyw deall fod Miss Caroline Evans, Parc y Rhos yn gwella yn foddhaol ar ôl triniaeth feddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor a hyderwn y cawn ei gweld wrth ei gwaith cyn bo hir. Da hefyd yw deall fod Mr. O.D. Griffiths, Glanmoelyn wedi cael dod adref o Ysbyty Eryri.

TAN-Y-COED

ROBERT ARWEL JONES

Llongyfarchiadau i Mr. Robert Arwel Jones, 6 Tai Bryngwyn, ar ei ddyweddiad a Miss Elizabeth Edwina Rothwell. Dymuniadau gorau'r ardal i'r par ieuanc.

MARWOLAETH

Bore Mercher, Tachwedd 17eg yn Ysbyty Mon ac Arfon, bu farw Mr. William Edmund Jones, 7 Maesgerddi. Bu'r angladd fore Sadwrn Tachwedd 20fed. Y Parch. W.O. Roberts oedd yn gwasanaethu yn y tŷ ac yn Amlogfa Bangor. Y mae cydymdeimlad yr ardal â phriod Mr. Jones a'i blant, ei chwiorydd a'r teulu oll yn eu galar.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams



Glan Rhyddallt yn canu i'r cŵn

CARLO

Un caredig yw, rhaid credu, — hyfwyn,
Nid cyfarth a chwyrru;
Byddai'n ddel dawel gi du
O chai asgwrn a chysgu.

DON

Ci llon ydyw Don, yn denu — ei feistr
A'i foes yn ein synnu;
Hawlia'r tân, a gwylia'r tŷ,
Enwog, talog y teulu.

Duw a roes i'r di-reswm,
Pwy a wŷr, synnwyr rhyw swm.

Glan Rhyddallt

POMPI

Pompi sydd yn gi pum pwys - a hanner
Mae'n hynod o gyfrwys
A chwffia â chi chwephwys
A'i winedd a'i ddannedd yn ddwys.

Roli

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiart

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



Yn Eisiau

yr Is-Gontractwyr canlynol ar ein safle yn Llanrug
(Datblygiad Tai Preifat)

Bricwyr — Bricklayers **Trydanwyr**

Seiri — Carpenters — Electricians

Plastrwyr — Plasterers **Plymwyr**

Peintwyr — Painters


GWAITH SYLFEINI — Groundworks
ANFONWCH AT

**CYMRODYR
HIRAETHOG**

GELLI LLANSANNAN CLWYD
neu ffoniwch Llansannan 653 / Llanynys 236

CYFARCHION Y TYMOR
ODDI WRTH

**MODURDY
MENAI**



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth
VIC a BLOD
Gwesty

**Glyntwrog
Llanrug**

CWRW BLASUS —
CWMNI DIDDAN

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

ROSALIND

FFASIYNAU MERCHED

32 STRYD FAWR
LLANBERIS

(Ffôn : LLANBERIS 459)

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

JACOB A. JAMES
Regent House
Deiniolen

Ffôn : LLANBERIS 461

GROSER PENIGAMP !

DEWCH I WELD DROSOCH EICH HUN

Sibrydion o'r Ysgolion

YSGOL BRYNREFAIL BLAS MWY

BYDD un o ddisgyblion y 5ed dosbarth, Anita Jones yn cystadlu mewn cystadleuaeth goginio a drefnir gan Fwrdd Nwy Cymru, ac sydd yn agored i ddisgyblion rhwng 13 a 15 oed drwy Gymru gyfan, yr wythnos nesaf. Mae Anita eisoes wedi curo y cyn-gystadlaethau yn yr ysgol, yn Arfon ac yng Ngwynedd. Bydd yn cynrychioli Gwynedd yn y rownd derfynol yng Nghaerdydd, dydd Iau Rhagfyr 9ed. Dymunwn pob llwyddiant iddi, gan obeithio y bydd yn ennill y wobwr gyntaf, sef stof newydd.



LLWYDDIANT YSGRIFENEDIG

Yr wythnos diwethaf derbyniodd Dilys Jones, aelod o chweched dosbarth yr ysgol, yr ail wobwr mewn cystadleuaeth trwy Gymru gyfan ar ysgrifennu traethawd fel canlyniad i gwrs C.E.W.C. (Cyngor Addysg Mewn Dinas-yddiaeth Byd), a gynhaliwyd ym mis Ebrill diwethaf. Y mae'r gystadleuaeth hon, sef 'Cystadleuaeth Traethawd Coffa William Arnold' o safon uchel iawn, a da yw gweld ysgol wledig yn gwneud mor dda ynddi. Y mae Dilys hefyd, yn cyfrannu'n helaeth i'r golofn hon o'r Eco pob mis, a dymunaf yma ddiolch yn gynnes iddi am ei gwaith trylwyr bob amser.

SGWRS DDIDDOROL

Pnawn Mercher, Tachwedd y 3ydd, daeth Mr. Richard White o 'Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd' i roddi sgwrs i'r chweched dosbarth. Bu'n siarad yn ddi-ddorol iawn am y darganfyddiadau yn Aberffraw a Chaernarfon ac yn dangos ffilm o'r gwaith.

TRIPIAU

Cafodd rhai o ddisgyblion dosbarthiadau tri a chwech ymweld â hen garchar Beaumaris prynhawn Gwener 5ed o Dachwedd. Gwelsant sut yr oedd y carchar yn

cael ei redeg yn ystod y ganrif ddiwethaf a chawsant flasu cawl tebyg i'r un a gai'r carcharorion yno.

Trefnwyd sawl trip i Theatr Gwynedd yn ystod y mis diwethaf. Bu disgyblion y chweched dosbarth yn gweld dwy ffilm a ddangoswyd yno'n ddiweddar — 'A High Wind in Jamaica' a 'Hamlet'. Buont hefyd yn gweld drama Shakespeare 'As You Like It' yn cael ei pherfformio gan Adran Ddrama y Brifysgol, ac yn gynharach yn y mis bu disgyblion o'r ysgol yn gweld 'Ynys y Geifr' drama wedi ei chyfieithu o'r Eidaleg.



Tim Pelrwyd Ysgol Dolbadarn a enillodd yn erbyn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llanrug. Yr wythnos hon chwaraeant yn ail rownd cwpan yr Urdd ym Mhorthygest.

ADRODDIAD Y PRIFATHRO

Parhad o'r tudalen blaen

Y mae'r canlyniadau yma yn gyfystyr â 5 pwnc yn Safon O ac yn haeddu canmol-iaeth uchel iawn.

Gareth Jones: 4G1: 5G 2

Arfon Wyn Jones: 2 G 1 : 5 G 2

Trefor Anthony Jones: 2 G1:2G2

Helen Wyn Jones: 2 G 1: 2 G 2

Joyce Roberts: 2 G 1: 2 G 2

Medwyn Lloyd Roberts: 2G1:2G2

Mona Jean Lewis: 1 G 1: 4 G 2

Michael V. Owen: 1 G 1: 6 G 2

Gan fod Gradd 2 yn bur agos i Radd 1 y mae'r rhain yn ganlyniadau pur dda. Y mae ymroddiad athrawon a disgyblion yn medru gwneud llawer o wahan-iaeth i'r safon yma ac mae'n amlwg for llawer o waith caled wedi mynd ymlaen.

Ond pan ddown at arholiad safon 'A' y mae angen mwy na gwaith caled yn unig. Nid wyf yn credu fod y cyhoedd yn sylweddoli mor anodd yw cyrsiau safon 'A' ac nad yw llwyddiant mewn pwnc yn yr arholiad safon 'O' o angenrheidrwydd yn argoeli llwyddiant yn yr arholiad safon 'A'. Mae'n debyg fod y gagendor rhwng y math o waith a wneir yn y 5ed Dosbarth a'r math a wneir yn y 6ed yn fwy na'r gagendor sydd rhwng y 6ed Dosbarth a Choleg. Yn aml fe glywais gyn-ddisgyblion yn sôn fod gwaith y flwyddyn gyntaf yn y Coleg yr un fath ac weithiau yn haws na'r gwaith a wnaethont ar gyfer arholiad safon 'A'.

SAFON YN CODI

Ar ben hyn credaf fi (fel llawer o brif-athrawon eraill) fod y safon eleni wedi codi oherwydd ei fod yn bolisi i beidio cynyddu y nifer sydd yn mynd ymlaen i addysg bellach. Gan nad oes datganiad swyddogol wedi bod ni ellir bod yn bendant ar hyn ond fe wn i sicrwydd fod prifathrawon ledled Cymru wedi mynegi pryder ynglyn a chanlyniadau safon 'A' eleni. Ar yr un pryd rhaid dweud fod Colegau Prifysgol a Pholytechnig erbyn hyn yn cydnabod gradd D neu E mewn pwnc yn ddigonol. Er nad oedd y canlyniadau eleni yn llewyrchus ni fethodd neb bron fynd i Goleg neu ddilyn y cwrs a ddewiswyd ganddynt. Pwysleisias unwaith eto for gwaith ac ymroddiad cyson yn angenrheidiol ar gyfer gwaith safon 'A' heddiw, ond nad yw hyn hyd yn oed ohono'i hun yn ddigon. Y mae angen hefyd allu academaidd cynhenid ac nid yw canlyniadau safon 'O' bob amser fel y dywedais yn arwydd sicr fod y gallu yn bod. Fe all ymdrechion athrawon wneud gwahaniaeth dybryd i ganlyniadau safon 'O' a TAU ac y mae'r canlyniadau a gafwyd yn arwydd pendant fod athrawon yr ysgol hon yn gweithio yn galed iawn. Ond yn yr arholiad safon 'A' y mae'n rhaid i ddisgybl weithio drosto'i hun ac mae'n rhaid felly fod yna ddawn a diddordeb academaidd. Ni all unrhyw athro wneud iawn dros ddiffyg yn y cyfeiriad yma.

Y disgyblion sydd yn sefyll allan eleni yw:

Gwyneth Thomas - Saesneg B; Lladin B; Ffrangeg C; a Grace Helena Parry - Saesneg C; Cymraeg B; Ffrangeg D; a dylid hefyd longyfarch Doris Adlam ar gael gradd 'A' mewn Gwyddor Ty.

Y PLANT DI-ARHOLIAD

Fel y gwyddoch y mae pob disgybl erbyn hyn yn gorfod aros yn yr ysgol hyd nes y mae yn un ar bymtheg oed. Y mae nifer o'r rhain nad ydynt am eistedd arholiad ac fe allai eu blwyddyn olaf yn yr ysgol ymddangos yn ddiflas a dibwrpas iddynt. Y mae gennym gynllun a gychwynwyd ym mis Medi 1975 iddynt fynd allan i weithio am un diwrnod ymhob wythnos yn ddi-dâl mewn siop, modurdy, gwesty etc. Fe fu'r bechgyn yn mynd i Goleg Technegol Gwynedd unwaith yr wythnos hefyd.

Yn bennaf oherwydd y cynllun 'profiad gwaith' yma fe sicrhawyd fod mwyafrif mawr y plant yma yn cael gwaith ar ôl gadael yr ysgol ran amlaf yn y lle y buont yn mynd ar eu profiad gwaith. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i gyflogwyr a fu'n cydweithredu a ni i wneud yr arbrawf yma yn llwyddiant a hefyd i brif-athrawon ysgolion cynradd yr ardal a fu'n caniatáu i enethod ddod i'r ysgolion i helpu gyda'r babanod.

GEMAU AC ATHLETAU

Ymysg y genethod mae'n debyg mai'r digwyddiad mwyaf oedd llwyddiant y Grŵp Gymnasteg a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Gwynedd, er na chawsant wobwr yn y Genedlaethol. Hefyd llwyddodd Alison Wyn Jones, Penisarwaun Dosbarth 1af i dorri record y Naid Hir ym Mabolgampau Ysgolion Gwynedd a hefyd ddod yn gyntaf am daflu discus. Marian Wyn Williams, Deiniolen, 4edd Flwyddyn, a enillodd Bencampwriaeth y Genethod yng Nghyfarfod Athletau yr Ysgol. Ymysg y bechgyn dewiswyd Emyr Roberts, Bethel, 6ed Dosbarth, i chwarae i dîm pel-droed Ysgolion Gogledd Cymru. Dewiswyd Gareth Williams, 5ed Flwyddyn, Bryn Hughes, Seion, 3edd Flwyddyn, a Wyn Sinclair, Cwm-y-glo Flwyddyn Gyntaf i gynrychioli Arfon ym Mhencampwriaeth Ysgolion Gwynedd. Maldwyn Williams, Llanrug, y Flwyddyn Gyntaf, a enillodd Bencampwriaeth y Bechgyn yng Nghyfarfod Athletau yr Ysgol. Y mae hefyd lawer o weithgarwch wedi bod ym meysydd nofio, sgio, gymnasteg a Dawns (genethod).

CELF

Yr orchest unigol fwyaf arbennig yma yw fod llun Arwel Ll. Thomas, Llanrug (6ed Dosbarth) wedi ei ddangos yn Nairobi yng Nghynhadledd Cyngor Eglwysy Byd, ac wedi ei arddangos mewn sawl man ar ol hynny. Hefyd dewiswyd yr Ysgol gan yr Urdd i baratoi cywaith yn ymwneud â Neges Ewyllys Da ar gyfer Arddangosfa ym Mhabell Cymorth Cristnogol Cyngor Eglwysy Cymru yn Eist-

eddfod yr Urdd, Porthaethwy. Fe fu oddeutu ugain o ddisgyblion yn gweithio'n galed iawn a chafodd eu gwaith gryn ganmoliaeth. Fe'i dangoswyd wedyn yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn Llandudno, yng Nghyngor Addysg Gristnogol Prydain yn Llundain, ac wedyn ym Mhabell Cymorth Cristnogol yn Eisteddfod Genedlaethol Aber-teifi. Hefyd cafwyd tri darlun i mewn i Arddangosfa Adran Ieuencid yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y 6ED DOSBARTH

Ffurfiwyd cysylltiadau pur agos ag Ysgol Pendalar, yr ysgol i blant dan anfantais yng Nghaernarfon yn ystod y flwyddyn. Bu rhai o'r genethod yn ymweld â'r ysgol bob pnawn Mercher. Cynhaliwyd Disco ym mis Hydref (pryd yr estynnwyd gwahoddiad i ddisgyblion hyn Ysgolion Uwchradd eraill y cylch) a chodwyd digon o arian i roi Parti Nadolig i blant Pendalar ac anrheg i bob un.

Perfformiwyd drama, "Lled-aenu'r Newyddion", ddiwedd tymor y Pasg a Mr. Pleming, athro dosbarth y 6ed yn cynhyrchu a chafwyd hwyl fawr arni. Fe fu Dilys Ann Jones a Michael John Williams mewn Cynhadledd Ieuencid o Fudiad Addysg y Cenedloedd Unedig yng Nghaerdydd yn ystod y Pasg. Fe fu sawl ymweliad â Theatr Gwynedd i weld ffilmiau, dramâu ac ar un achlysur Cwrs Undydd mewn Drama. Hefyd bu Mr. Victor Neep, artist lleol, yn rhoi nifer o ddarlithoedd ac yn cynllunio, gydag awgrymiadau'r disgyblion, gerflun a fydd yn ymddangos fel plac ar wal yr

ysgol. Y mae Mr. Neep yma dan nawdd Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru ac yr ydym yn hynod ddiolchgar i'r Gymdeithas am hybu'r cynllun gwerthfawr yma. Arwel Ll. Thomas a Gwyneth Thomas y ddau o Lanrug oedd y Capteiniaid ac fe wnaethant eu gwaith yn ddoeth a chyfrifol iawn.

SYLWADAU CYFFREDINOL

Dim ond braslun yn unig yw'r uchod. Ni soniais am gyfarfodydd trafod rhieni ac athrawon ar gyfer y Flwyddyn Gyntaf, y Drydedd, a'r Bumed a'r Chweched sydd yn awr yn rhan o batrwm sefydlog a fydd yn digwydd bob blwyddyn Bu'r cyfarfodydd yma'n llwyddiannus iawn ac fe wn yn bendant eu bod wedi bod o werth i'r athrawon. Ni soniais am yr Eisteddfod sydd i mi yn bersonol yn uchafbwynt y flwyddyn a lle y gwelir yr ysgol ar ei gorau.

Bu Mr. Iwan Williams yn hyfforddi plant dan 15 oed yn y ddrama 'Y Fantell Fraith' ar gyfer Cystadleuaeth Drama Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd perfformiad da ond ni chawsant fynd ymlaen i'r genedlaethol. Hefyd fe fu nifer o blant yr Ail Flwyddyn yn cymryd rhan yn ffilm Wil Aaron, "Gwaed ar y Sêr".

Y mae sefyllfa gwisg yr ysgol yn bur foddhaol ac yr wyf yn ddiolchgar i rieni am eu cefnogaeth. Yr wyf yn fwy argyhoedd-edig bob blwyddyn fod gwisg ysgol yn bwysig i ddisgyblaeth ac i falchder yn yr ysgol.

Yr oedd cyfartaledd y plant a oedd yn dod i'r Ysgol yn 89% dros y flwyddyn ac mae hwn yn ffigwr boddhaol iawn.

DYMUNA
JERRY & MARGARET
WARDLE

**SWYDDFA'R
POST**
*a Stordy
Cwm-y-glo*

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll

ARCHEBWCH EICH
BLODAU,
FFRWYTHAU
A LLYSIAU
NADOLIG RWAN YN

**SIOP
CLEDWYN
PARRY**

STRYD FAWR
LLANBERIS (Ffôn 301)

Rydym yn danfon
i bob cwr o'r fro!

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa
oddi wrth

SIOP HELEN

CHESTER HOUSE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 386)

MAN DELFRYDOL
AM 'SGIDIAU FFASIYNOL
A SLIPARS O BOB MATH

AR WERTH

Pram mawr Swallow: mewn cyflwr ardderchod, glas 'navy'. Berthlyn, Bethel, Ffôn. P. Dinorwig 405
Côt Frethyn Ddu: gynnes i ferch mewn cyflwr newydd (outside). Y gwisgwr wedi colli pwysau! Gwerthir yn rhad. Ffôn Llanberis 575.

Carped amryliw Axminster: 9' x 12' mewn cyflwr da ynghyd ag islen £10. Mat ychwanegol: am ddim gyda'r carped.

Cwpwrdd Dillad: 4' o led 20" o ddyfnder. Mrs. Digbey, 22 Glanffynnon, Llanrug: £5.

£5: Côt Las: mewn cyflwr da i ffitio geneth 6-7 oed. £4: Côt law goch: mewn cyflwr da i ffitio geneth 6-7 Pinafore lwyd - £1. Pinafore navy £1. Ffôn Padarn 339.

1: 3kw 'Heatstore' storage heater ac 1: 2kw Storage Heater. Fel newydd y ddau am £25. Cadair 'stafell wely: pinc £4.50, Bryn Elert, Bryniau Fawng, Llanrug.

Mothercare 'carry cot' a matras, lliw glas tywyll: £4. Crud Wicker ar goesau £7. 'Mothercare' Stand: ar gyfer carry cot neu fath: £1. Llanberis 638.

Cymysgydd Bwyd: fel newydd £5 Ffôn Caernarfon 3977

YN EISIAU

Sgrin Dàn: ar gyfer plant. Cadair wthio. - Buggy - Llanberis 531.



Rhagfyr 1:Mercher:Clwb y Mamau, Llanberis yn cyfarfod yn nghwmni Mrs. Barbara Owen yn y Ganolfan. Cyngor Eglwys Llanrug. Cynhelir Seiat Agored dan arweiniad y Rheithor y Parch. Gwynfor Williams yng Nghapel Bryngwyn.

Rhagfyr 2:Llun: Ffair Aaaf dan nawdd Cangen Plaid Cymru, Llanberis yn Festri Gorffwysfa am 7. Disgo i blant hynaf Ysgol Gwaun Gynfi ac ysgol Dolbadarn yn yr Ysgol, Deiniolen. Gyrfa Chwist Arbennig yn Neuadd yr

Eglwys Penisarwaun. Cymdeithas Lenyddol Undebol Dinorwig. Sgwrs gan Mr. John Roberts, Warden Parc Cenedlaethol Eryri am 7 o'r gloch.

Rhagfyr 3:Iau: Eisteddfod Eglwys Sant Peris a Sant Padarn yn Neuadd yr Eglwys Llanberis am 6.30. Cymdeithas y Chwirydd Capel Disgwylyfa, Deiniolen. Ffair Nadolig yn Neuadd Bentref Bethel. Yr elw ar budd Eglwys St. Deiniol Llanddeiniolen a St Teilio Bethel. Gyrfa Chwist Nadolig dan nawdd Cangen Plaid Lafur Deiniolen yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7. Cinio Clwb yr Efail Brynrefail yn y Stables.

Rhagfyr 4:Sadwrn: Cinio Nadolig Clwb Ffermwyr Ifanc Bethel a'r cylch yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis.

Rhagfyr 6:Llun: Sefydliad y Merched Deiniolen yn cyfarfod. Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan, Llanberis am 7. Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. Llanberis yn Festri Gorffwysfa am 7.15. Noson Lawen yng ngofal Mr. H.R. Jones Undeb y Mamau Penisarwaun yn cyfarfod.

Rhagfyr 7:Mawrth: Undeb y Mamau Llanberis yn cyfarfod. Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod. Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr Llanrug. Cyngerdd gan blant ysgol y pentref.

Rhagfyr 8:Mercher: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7. Merched y Wawr Cwm-y-Glo. Noson Ysgafn yng nghwmni Mr. J. John Evans, Clwt-y-Bont a Mr. R.H. Jones. Deiniolen. Merched y Wawr Bethel, Noson o Frethyn Cartref yn yr ysgol am 7.30.

Rhagfyr 9:Iau: Cinio Nadolig Clwb yr Henoed Llanrug yn yr ysgol gynradd am 7. Sefydliad y Merched Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7. Disgo i blant hynaf ysgolion Dolbadarn a Gwaun Gynfi yn Ysgol Dolbadarn. Cymdeithas Lenyddol Undebol Bethel - noson o Frethyn Cartref gan Ferched y Wawr yn Festri Capel Bethel Cynhellir Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug - yr elw at Gronfa Cae Chwarae Coed y Ddol Llanberis.

Rhagfyr 10: Gwener: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched Deiniolen ym Mhlas Maenan Llanrwst. Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod. Cinio Nadolig Cymdeithas Ddrama Llanberis yng Ngwern y Wylan Llanddona.

Rhagfyr 11, Sadwrn: Cinio Naddlig

Cangen Plaid Cymru Deiniolen yng Ngwesty George IV Cricieth.

Rhagfyr 13,Llun: Clwb y Rhos, Bethel yn cyfarfod. Parti Nadolig plant Capel Disgwylyfa Deiniolen am 4. Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd St. John yn y Ganolfan Llanberis am 7.30. Cymdeithas Lenyddol Pontrythallt - noson yng nghwmni Mr. Rhodri Prys Jones Archifydd Caernarfon.

Rhagfyr 14,Mawrth: Cinio Nadolig Clwb yr Heulwen, Penisarwaun yng Ngwesty'r Marine Caernarfon.

Rhagfyr 15,Mercher: Clwb y Mamau Llanberis - noson yng nghwmni Parti Glyn Rhonwy yn y Ganolfan am 7.30.

Rhagfyr 16,Iau: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched, Bethel ym Mhlas Val Caeathro.

Rhagfyr 17,Gwener: Ysgol Brynrefail cynhellir Gwasanaeth y Nadolig yn neuadd yr ysgol am 7. Disgo yng Nghanolfan Cymdeithasol Dinorwig.

Rhagfyr 18,Sadwrn: Cinio Blynnyddol Sefydliad y Merched Llanberis yng Ngwesty'r Fictoria. Cinio Nadolig Pwyllgor Carnifal Llanberis yng Ngwesty Dolbadarn Llanberis. Cinio Nadolig Ffatri Ddillad Y Glyn ym Mhlas Gwyn, Pentrefelin.

Rhagfyr 19,Sul: Gwasanaeth Undebol - canu carolau yng Nghapel Tabernacl Deiniolen.


Rhagfyr 20,Llun: Cinio Nadolig Clwb Methedig Eryri. Parti Nadolig Plant Capeli M.C. Llanberis yn Festri Capel Coch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan Llanberis



AMBIWLANS SANT IOAN LLANBERIS

BU'R tîm yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Gwynedd a gynhaliwyd yn Llanfairfechan, ac yn gyfartal ar y Cwpan Gwisg. Dyma'r drydedd waith i'r tîm ennill a byddant yn cystadlu yng Nghaerdydd ym mis Mai 1977 am Gwpan Cymru. Y tîm: Andre Lambrecht (Capt.); Geraint Jones, Rob Owen, Robert James Jones, Robert Arwel Hughes. Yn y llun hefyd mae Mr. Huw Owen sydd wedi rhoi blynyddoedd i baratoi a dysgu plant yr adran. Mae dyled yr ardal yn fawr i bobl fel Huw Owen.

Croesair Rhif 9



CROESAIR RHIF 9

1. Pedair awr ar hugain (7)
5. Hylif coch cynhaliwr bywyd (5)
8. Ffolineb (5)
9. Arweinydd (7)
10. Cofnodau byrion (8)
12. Lles (3)
13. Difyrnu (6)
17. Ffyrnig (3)
18. Styfnig (9)
20. Aruthrol o fawr (7)
21. Cymryd ymborth (5)
23. Troi'r golau i ffwrdd (5)
24. Dec dwbl? (7)

I LAWR

1. Hyn wna'r iâr (5)
2. Wel, meddal ... wrth y wal (3)
3. Gwledd briodas (7)
4. Di-stop (6)
5. Diarddel (5)
6. Hysbys i lawer (9)
7. Iselhau (7)
11. Geiriau coffa ar garreg (9)
13. Arogl drwg (7)
15. Dyw bod â dau o'r rhain ddim yn golygu eich bod yn ddau wynebog (7)
16. Brenhinoedd yr adar (6)
18. Bloedd (5)
19. Toriad dydd (5)
20. Fan hyn (3)

ATEBION I RHIF 8

AR DRAWS

1. Enwi neb. 3: Tocyn. 6: Helgi. 8: Tebot Piws. 10: Nôl. 12: Ôl. 13: Te. 16: Yna. 17: Sir y Fflint. 19: Incwm. 20: Radio. 21: Awrlais.

I LAWR

1. Ei het. 2: Neilltuo. 3: Trais. 4: Cyfansoddi. 5: Nadolig. 7: Cais. 9: Bwyd a diod. 11: Diystyr. 14: Eifftiwr. 15: Brain. 17: Swnio. 18: Tomos.

ENNILLYDD CROESAIR RHIF 8

R.G. Roberts, Halfway House, Mynytho.

Cyfrir llythrennau canlynol fel un llythyren:

CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH

Bydd gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl atebion ddod i law.

Anfoner y cynigion i: Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis.

CHWARAEON

BETH medde chwi yw gêm genedlaethol Cymru? Pêl droed? Rygbi? Tennis efallai — gan fod cred mai yng Nghlwyd y chwaraewyd y gêm honno gyntaf, ond wedyn, p'ryd fuoch chi'n chwarae tenis ddiwetha?

Mae'n sefyll i reswm mai gêm Genedlaethol unrhyw wlad yw'r un mae'r mwyafrif o'i phobl yn ei dilyn, ei chwarae a'i mwynhau amlaf. Ar sail hyn 'does amheuaeth o gwbl mai **BASEBALL** ydi'n gêm ni!!

Mae rhai pobl, wrth gwrs, yn mynnu cysylltu'r hen gêm Gymraeg â'r Unol Daleithiau, a chlywsom i gyd am y National League, a'r Yankee Stadium, ond mae'r 'Mericans, chwarae teg iddynt yn gwbl barod i gyd-nabod mai yma, yng Nghymru y sefydlwyd hi, ac nad oes yr un pwysigrwydd iddi o gwbl yn Chicago, Washington a New York ag sydd ym mhentrefi bach Cymru.

Wedi'r cwbl, tydi pob aelod o'r teulu yn ei chwarae ar bob cyfle bosib?

Daeth copi i'm llaw o'r Chicago Tribune, Awst yr 2ail 1976, ac ynddo erthygl faith am y gêm, gan ganolbwyntio ar ei gwreiddiau.

Mae ein diolch i un "Willie Morgan — a Welsh Civil Servant", am y 'ffeithiau' a roddodd i awdur yr erthygl am wreiddiau Cymreig y gêm ac am ei phoblogrwydd yma. Ar ôl ei osodiad cyntaf fod miloedd ohonom yn chwarae'r gêm ar bob cyfle bosib, mae'n mynd ymlaen i egluro'r rheolau fel y'u dehonglir yma — mae'n

ymddangos fod siap y bat a ddefnyddiwn ni ychydig yn wahanol ac fod y 'pitcher' (beth bynnag ydi hwnnw) yn bwrw'r bêl mewn ffordd gwbl Gymreig. Mae'n gorffen efo'r paragraff fydd i mi, beth bynnag, yn fythgofiadwy, maddeuwch i mi'r Saesneg — "Now and then a Welsh baseballer may shout in his native language 'Agorwch y drws'. It sounds like 'Agorweck er drees'. It means, 'Kill the umpire'."

Clywais am ambell reffari a daflwyd i'r afon ac unwaith am oruchwyliwr cystadleuaeth wyddbwyll yn cael ei yrru adre am iddo fynd i gysgu — ond lladd yr 'umpire'?

Y peth agosaf welais i erioed yn yr ardal yma i fesbol yw'r rownders fydd genod yr ysgol acw'n ei chwarae, ond 'dydi honno ddim hanner mor waedlyd â'n 'gêm genedlaethol' ni!!

'Tyda ni'n dysgu rhywbeth newydd pob dydd — 'tyda ni!!

Ein diolch i Bapur Menai am roi benthg y Chicago Tribune i ni, ac am eu caniatâd i ddefnyddio'r deunydd.

CYNRYCHIOL'R SIR



Mae pum bachgen o Ysgol Brynrefail wedi eu dewis i gynrychioli De Arfon yn y timau pêl droed fydd yn cystadlu yng Nghwpan Cymru.

Yng ngharfan y rhai dan 15eg oed mae Bryn Hughes o Seion a Dafydd Evans a Gwyndaf Jones o Ddeiniolen.

DARTIAU —



Siomedig braidd fu ein apêl am gysylltwyr o'r Clybiau Chwarae Dartiau, ond daeth dwy adroddiad i law o Lanberis.

Nos Lun yr 22ain bu Gwesty'r Castell yn chwarae yn erbyn tîm Palace 'A' Caernarfon. Mae'r ddau dîm yn uchel yn y gynghrair a bu gornest dda a chyfartal rhyngddynt — 4 — 4 oedd y sgôr derfynol.

Colin Rowlands, Michael Griffiths, Keith Roberts a W. Glyn Roberts fu'n llwyddiannus iddynt.

Mae tafarn Tywysog Cymru yn y gynghrair am y tro cyntaf eleni, yn adran 'B'. Cyfartal fu eu gêm hwythau nos Lun yn erbyn y Newbro, Bontnewydd.

Gwynfor Jones, Gilbert Jones, M. Pitts a Brinley Roberts yn ennill eu pedair gêm, tra'r pedwar arall yn y tîm yn colli.

Ga' i ail apelio at bob Clwb Dartiau i benodi rhywun i yrru'r canlyniadau i law yn fisol? Dafydd Evans yw'r enw, yn Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaun.

PELDROED

LLANBERIS

Mis digon cythryblus oedd hwn i Lanbêr. Daeth Llandegfan draw ar y 6ed a chwaraewyd gêm gyfartal — tair gôl yr un. Colli fu eu hanes yn yr ail chwarae y Sadwrn canlynol, pan yrrwyd dau chwaraewr a llinellwr Llanberis oddi ar y cae.

Ar yr ugeinfed Rhyl oedd eu gwrthwynebwyr yng Nghwpan Cymru. Mae Rhyl yn dîm proffesiynol a phrofiadol a gwnaeth yr hogia'n hynod o dda yn eu herbyn er iddynt golli o dair gôl i ddwy. Barry Pitts yn eu sgorio. 'Doedd dim gêm ganddynt ar y 27ain.

LLANRUG

'Doedd dim gêm gan Lanrug ar y 6ed, ond ar y 13eg daeth Porthmadog draw mewn gêm gynghrair a hwy aeth ar y blaen. Atebodd Jackie Smith yn fuan oddi ar y smotyn gwyn a sgoriodd J. Ian Jones a Smith eto i'w gwneud yn 3 — 1 ar hanner amser.

Smith sgoriodd gyntaf yn yr ail hanner hefyd, ond daeth Porthmadog yn ôl efo gôl dda. Hefin Pritchard sgoriodd y bumed gôl i Lanrug.

Mae'r hogia bellach yn drydydd yn y gynghrair, a siawns da ganddynt am y bencampwriaeth.

Sadwrn gwag eto ar yr ugeinfed ond ar y 27ain gem yng Nghwpan Gyfryngol Gogledd Cymru yn Connah's Quay yn erbyn yr Albion.

Yn y tîm o dan 13eg oed fydd Adrian Wakeham o Lanberis a Carl Williams, yntau o Ddeiniolen yn chwarae.

Mae'r tîm dan 15eg oed wedi chwarae dwy gêm eisoes, y ddwy yn erbyn Sir Fôn. Colli fu eu hanes ym Mhorthaethwy o 4 gôl i un ac ennill yng Nghaernarfon yn yr ail o 2 gôl i ddim.

Disgleiriodd Gwyndaf gan sgorio yn y ddwy gêm, a bu canmol-iaeth uchel i berfformiad Bryn yng Nghaernarfon.

Eilydd oedd Dafydd Evans yn y ddwy gêm, ond gobeithir y daw ei siawns yntau yn y gêm nesaf yn erbyn Clwyd.

Bu Gwyndaf yn chwarae ym mhrawf Gogledd Cymru ym Mae Colwyn ar y 13eg o'r mis, ond ni ddaeth manylion o'r tîm a ddewiswyd i law eto.

Nid yw'r tîm dan 13eg oed wedi chwarae, bydd eu gêm gyntaf ar gae Llanrug ar yr 11ed o Ragfyr yn erbyn Sir Fôn.



Daeth y llun yma i law. Tîm o Fethel ydi o, a dyna gyfanswm ein gwybodaeth.

Oes yna rhywun all ddweud wrthym pwy sydd yn y llun, pa bryd y tynnwyd o, ym mhle 'roedd cae Bethel, pa bryd a pham y peidwyd â chynnal tîm yno?

Clywsom ddigon am dimau Llanrug, Llanberis a Deiniolen, dyma'ch cyfle chwi bobl Bethel i roi'r pentre ar y map.

Cysylltwch â'r Eco, gobeithiwn gyhoeddi'r holl ffeithiau yn ein rhifyn nesaf.

CERDDED

YR WYDDFA

Ddydd Sadwrn y 6ed o Dachwedd aeth pedwar ar hugain o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, a chwech o'r athrawon ar daith fynydd i gopa'r Wyddfa.

Dilynwyd Llwybr y Moch o Ben y Pas i'r copa ac oddi yno i Nant Gwynant dros y Bwlch Main ac ar hyd Cwm Llan.

Nid oedd y tywydd yn ffafriol ond 'roedd pawb mewn hwyliau da wrth ddod i lawr o'r cymylau.

CODI PWYSAU

Bu tri aelod o glwb codi pwysau Llanrug yn cystadlu ym Mhen-campwriaeth Cymru i rai dan 19 oed yng Nghaerdydd ar y 26ain o Dachwedd, a bu'r tri yn llwyddiannus. Bellach David Owen yw pencampwr Cymru ar y pwysau Bantam, David Casey ar y pwysau ysgafn ac Alan Roberts ar y pwysau canol.

Bu achlysur droeon i ni ganmol y Clwb ar dudalen ôl yr Eco, ac mae'n amlwg yn ôl y canlyniadau yma fod eu gwaith da yn parhau.

CWPAN CYMRU I FECHGYN HYN

Ar ôl dechrau da i'r ymgyrch am y cwpan drwy guro Benllech o 8 gol i 2 yn y rownd gyntaf, bu'n rhaid i'r hogia wynebu Blaenau Ffestiniog yn Llanberis yn yr ail rownd.

Cyfartal iawn oedd hi yn yr hanner cyntaf, a'r cyfle gorau yn disgyn i ran Llanberis. Yr un oedd y patrwm yn nechrau'r ail hanner nes i un o flaenwyr y Blaenau ddod o hyd i'r rhwyd, ac efelychu ei gamp ddwywaith wedyn mewn cyfnod o ddeng munud.

Hyn oedd y spardun oedd ei angen ar Lanberis a daeth dwy gôl yn fuan iddynt gan Trefor Jones a Gareth Williams.

Er yr holl bwysio a bygythio a fu wedi hynny ar gôl y Blaenau, ni ddaeth llwyddiant iddynt, a cholli o 3 gôl i 2 fu eu hanes.